

Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint i'w
Archwilio gan y Cyhoedd
2015 - 2030

Papur Cefndir 3
Cynllun Seilwaith

Medi 2019
LDP-EBD-BP3

Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint i'w Archwilio gan y Cyhoedd 2015 - 2030

CYNLLUN SEILWAITH (2019)

Cynnwys	Tudalen
Rhan 1	
1. Cyflwyniad	3
2. Pwrpas y Ddogfen	4
3. Strwythur a Chynnwys	5
4. Diffinio'r Mathau a Chategorïau o Seilwaith	6
a. Mathau o Seilwaith	6
b. Categorïau Seilwaith	7
5. Cyllido Seilwaith	7
6. Cyfraniad Datblygwyr	8
a. Cytundebau Adran 106	8
b. Ardreth Seilwaith Cymunedol (CIL)	9
Rhan 2	
1. Cyflwyniad	10
2. Cludiant a Phriffyrdd	10
• Cerdded a Beicio	10
• Bysiau	16
• Rhwydwaith Rheilffyrdd	18
• Rhwydwaith Ffyrdd	23
3. Addysg	
• Addysg Feithrin, Cynradd, Uwchradd a Chweched Dosbarth	28
4. Iechyd	
• Gofal Iechyd Sylfaenol ac Eilaidd	35
5. Rheolaeth Amgylcheddol	
• Risg Llifogydd a Rheoli Dŵr Wyneb	41
6. Gwasanaethau Cyfleustodau	

	Tudalen
• Dŵr Gwastraff	45
• Cyflenwad Dŵr	48
• Nwy	49
• Trydan	50
• Telathrebu	52
Atodiad 1 Y Rhanddeiliaid Allweddol y cysylltwyd â nhw	54
Atodiad 2 T Gofynion Isadeiledd Safleoedd Strategol Allweddol a Safleoedd wedi'u Dyrannu	55

Cynllun Seilwaith Sir y Fflint (IP)

Rhan 1

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r Cynllun Seilwaith hwn (IP) yn “ddogfen fyw” sy'n cyd-fynd â Chynllun Datblygu Lleol (CDLI) Sir y Fflint. Mae'n cynnwys cyfnod y cynllun rhwng 2015 a 2030 ac yn nodi'r modd i wella a darparu'r seilwaith sy'n ofynnol i gefnogi a chynnal lefel twf arfaethedig y Sir. Bydd hefyd o bosibl yn cefnogi amserlen codi tâl Ardoll Seilwaith Cymunedol (CIL), gyda'r ystyriaeth am hynny'n dilyn maes o law ar ôl i'r CDLI gael ei fabwysiadu. Mae'r wybodaeth a gynhwysir yn y ddogfen hon yn gywir ar adeg ei pharatoi (Mehafin 2019).
- 1.2 Mae darparu seilwaith newydd yn elfen bwysig o gynllunio ar gyfer datblygiad newydd gan y cydnabyddir y dylai datblygiad newydd, lle bo hynny'n briodol, ddarparu cyfleusterau cymunedol ategol, newydd a gwasanaethau angenrheidiol yn amserol. Er y cydnabyddir y gall rhai elfennau sylweddol o seilwaith gymryd blynyddoedd i'w cwblhau, mae Strategaeth y Cynllun yn ceisio sicrhau y darperir seilwaith angenrheidiol ynghlwm â phob cam mewn datblygiad newydd, a bod pob cam datblygu'n gallu dangos lefel dderbyniol o gyfleusterau cefnogol. Gallai hyn gynnwys darparu cyfleusterau newydd yn fuan ynghyd â sicrhau'r cyfraniad mwyaf posib' o gyfleusterau presennol cyfagos cyhyd â bod capasiti a hygyrchedd derbyniol.
- 1.3 Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng y Cynllun Seilwaith (IP) hwn a'r polisiâu CDLI Sir y Fflint canlynol i'w harchwilio gan y cyhoedd:

STR3: Safleoedd Strategol

STR4: Egwyddorion Dylunio, Datblygu Cynaliadwy a Gwneud Lle

STR5: Cludiant a Hygyrchedd

STR6: Gwasanaethau, Cyfleusterau a Seilwaith

STR11: Darparu Safleoedd Tai Cynaliadwy

STR16: Amgylchedd Adeiledig Naturiol, Rhwydweithiau Gwyrdd a Seilwaith

PC6: Teithio llesol

PC7: Cludiant i Deithwyr

PC10: Cynlluniau Cludiant Newydd

PC12: Cyfleusterau Cymunedol

HN1: Cynigion Datblygu Tai Newydd

HN3: Tai Fforddiadwy

EN1: Cyfleusterau a Gweithgareddau Hamdden Chwaraeon a Diwylliannol

EN2: Seilwaith Gwyrdd

EN14: Perygl Llifogydd

EN15: Adnoddau Dŵr

- 1.4 Mae darpariaeth ac amseriad seilwaith safle-benodol yn gysylltiedig â'r Trywydd Tai a gofynion safle-benodol ar gyfer dyraniadau a geir yn atodiad X. Bydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau bod y CDLI yn cael ei gefnogi gan sylfaen dystiolaeth gywir a chyfoes a wedi'i gysylltu'n uniongyrchol â Fframwaith Monitro'r CDLI.
- 1.5 Mae'r ddogfen hon wedi cael ei llywio a'i llunio gan broses o ddeialog adeiladol gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol a sefydliadau sy'n gyfrifol am ddarparu seilwaith ar draws y Fwrdeistref Sirol, er mwyn sicrhau bod rhanddeiliaid yn ymwneud â darparu a chynllunio'r seilwaith sy'n ofynnol i gefnogi strategaeth y Cynllun. (Mae'r rhanddeiliaid allweddol yr ymgynghorwyd â nhw wedi'u cynnwys yn atodiad X). Mae'r wybodaeth a ddarperir yn helpu i ddangos hyfywedd a chyflawnadwyedd y safleoedd a ddyrennir yn y Cynllun.
- 1.6 Bydd canfyddiadau deialog ac ymgynghori parhaus pellach yn helpu i ddatblygu manylion y seilwaith gofynnol ynghyd â chyfleoedd cyllido gan gynnwys rolau cyfraniadau Ardoll Seilwaith Cymunedol (CIL) ar gyfer prosiectau strategol, cyfraniadau Cytundeb Adran 106 ar gyfer blaenoriaethau lleol ynghyd â nodi ffrydiau cyllido posibl eraill gan y cyhoedd a'r sectorau preifat. Yn ogystal, mae'n debygol iawn y bydd y Cyngor yn ymrwmo i Ddatganiadau Tir Cyffredin (SoCG) gyda datblygwyr a darparwyr seilwaith maes o law, a fydd yn diweddarau ac yn egluro'r wybodaeth a gynhwysir yn y ddogfen hon.

2. Pwrpas y Ddogfen

- 2.1 Er nad oes unrhyw ofyniad statudol i baratoi Cynllun Seilwaith yng Nghymru, o ystyried maint y twf y bwriedir ei wneud yn Sir y Fflint dros gyfnod y Cynllun, mae'r Cynllun Seilwaith yn rhan ddefnyddiol o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y CDLI i'w archwilio gan y cyhoedd. Mae angen sicrhau y bydd y cynllun yn cyflawni, mae hyn yn rhan o'r Profion Cadernid ar gyfer y Cynllun (h.y. a oes cefnogaeth gan y darparwyr seilwaith perthnasol yn ariannol ac o ran cwrdd ag amserlenni perthnasol).
- 2.2 Nid yw'r IP yn rhestr siopa ar gyfer cyfraniadau datblygwyr, ac nid yw'n nodi pob prosiect unigol sy'n cael ei gynllunio gan y Cyngor na darparwyr gwasanaeth allanol. Mae'n cydnabod bod cynlluniau a strategaethau eraill yn bodoli sy'n rhoi mwy o fanylion am beth, sut a phryd y bydd elfennau allweddol o'r seilwaith yn cael eu cyflawni, ac mae'n tynnu'n gryf ar y rhain i lywio'r Cynllun Seilwaith hwn. Yn ogystal, bydd graddfa, natur ac amseriad y datblygiad dros gyfnod y Cynllun yn dylanwadu ar gyflwyno'r seilwaith cysylltiedig yn raddol. O'r herwydd, bydd angen i ddarparwyr seilwaith weithio mewn partneriaeth â datblygwyr i sicrhau bod datblygiad newydd a'r seilwaith angenrheidiol yn cael eu darparu mewn modd cydgysylltiedig ac amserol dros oes y CDLI. Wedi dweud hynny, nid yw bob amser yn bosibl nodi ymlaen llaw pryd y bydd datblygiad yn digwydd ac o'r herwydd bydd

rhywfaint o ddarpariaeth seilwaith yn ymatebol, yn seiliedig ar yr amgylchiadau a'r capasiti a oedd yn bodoli ar y pryd.

- 2.3 Mae'r IP yn sefydlu graddfa'r seilwaith sy'n bodoli ar hyn o bryd i ddarparu cyd-destun, ac yn ceisio nodi'r ffyrdd y gellir cynyddu'r capasiti i ddarparu ar gyfer datblygiad newydd. Mae'r IP hefyd yn nodi'r mathau o isadeiledd y byddai eu hangen hefyd i gyflenwi unrhyw safleoedd annisgwyl dros gyfnod y cynllun, ond o ystyried eu natur, na allant ar hyn o bryd, nodi'r gofynion seilwaith cysylltiedig manwl ar gyfer safleoedd o'r fath.
- 2.4 Lle bo hynny'n bosibl, mae'r IP yn nodi'r sefydliadau sy'n gyfrifol am ddarparu'r seilwaith, y modd, ariannol ac fel arall, y darperir y seilwaith hwn, a phryd y rhagwelir y bydd darpariaeth yn cael ei gwneud dros gyfnod y cynllun. Er y dylid nodi na all rhai darparwyr fod yn fwy penodol ynghylch costau diffiniol a safleoedd ar hyn o bryd gan eu bod yn gweithio'r rhain trwy eu trefn briodol eu hunain o ran datblygu opsiynau ac ymgysylltu â chymunedau lleol yn ôl yr angen.
- 2.5 Y bwriad yw na fydd yr IP yn dyblygu unrhyw ddogfennau CDLI eraill, ac ni fydd yn disodli cynlluniau ariannol a rhaglenni buddsoddi presennol darparwyr seilwaith. Yn hytrach, y gobaith yw y bydd yr IP yn gweithredu fel fframwaith a mecanwaith eang lle gall darparwyr seilwaith ystyried a chynllunio ar gyfer lefel o ddatblygiad a ragwelir yn y dyfodol fel y nodir yn y CDLI i'w archwilio gan y cyhoedd. O'r herwydd, gobeithir y bydd y broses hon yn ffurfio un gydran o ddull cydgysylltiedig o gynllunio a darparu seilwaith trwy alinio gweithredu a chyflawni CDLI o fewn nodau ac amcanion sefydliadau eraill.

3. Cynllun Seilwaith - Strwythur a Chynnwys

3.1 Cyflwynir y mathau o seilwaith mewn cyfres o benodau (Rhan 2) sy'n nodi gan ddefnyddio fformat cyffredin:

- Y sefydliadau / asiantaethau arweiniol sy'n gyfrifol am gyflawni;
- Gwybodaeth Gyd-destunol;
- Y ddarpariaeth bresennol ledled y Sir;
- Cysylltiadau ag Awdurdodau Cymdogol;
- Materion Allweddol;
- Gofynion Seilwaith;
- Amcangyfrif o'r camau cyflwyno a chyflawni;
- Ffynonellau cyllido presennol a phosibl;
- Cyfleoedd i rannu cyfleusterau.

3.2 Mae'r gofynion seilwaith a nodwyd ar gyfer y dyraniadau safle yn y cynllun i'w archwilio gan y cyhoedd wedi'u nodi yn Atodiad 1. Lle bo hynny'n bosibl, nodir amseriad amcangyfrifedig cyflenwi seilwaith, ynghyd â'r costau cyfalaf posibl sy'n

gysylltiedig â phob eitem seilwaith a phwy fydd yn debygol o arwain ar y ddarpariaeth.

- 3.3 Er y cymerwyd gofal wrth baratoi'r ddogfen hon i sicrhau bod yr wybodaeth yn gywir, efallai y bydd gofynion a gwasanaethau seilwaith ychwanegol yn cael eu nodi trwy gyswllt parhaus â rhanddeiliaid ac o ganlyniad i'r broses Rheoli Datblygu fanylach ar gyfer y dyraniadau safle maes o law.

4. Diffinio'r Mathau a Chategoriâu o Seilwaith

Mathau o Seilwaith

- 4.1 Mae cynllunio a darparu seilwaith yn hanfodol i sicrhau bod twf cynaliadwy yn cael ei gyflawni mewn ffordd sy'n gwella'r ardal. Mae angen sicrhau y gellir darparu twf heb gael effaith niweidiol ar allu amgylcheddol neu gymdeithasol ac os ydyw'n cael effaith niweidiol, sut y gall y system gynllunio geisio gwrthbwyo neu liniaru unrhyw effaith.
- 4.2 Nid yw seilwaith yn golygu cludiant yn unig, mae'n cynnwys llu o faterion fel addysg, iechyd, gallu amgylcheddol, mynediad i fannau agored, chwaraeon a hamdden, diwylliant, cyflenwad dŵr a charthffosiaeth, darparu ynni, rheoli gwastraff ac ansawdd aer ymhlith eraill.
- 4.3 Mae Deddf Cynllunio 2008, Rhan 3, yn darparu diffiniad eang o'r hyn yw seilwaith. Yn achos yr asesiad hwn, mae Cyngor Sir y Fflint wedi mabwysiadu dull pragmatig i ddangos nad oes unrhyw 'rwystrau' mawr i gyflawni dyraniadau a nodwyd yn y cynllun a / neu yn achos y ddau safle strategol, mae hyn naill ai eisoes wedi'i ddarparu neu y bwriedir iddo ddigwydd. Mae Tabl 1 isod yn nodi'r mathau o seilwaith y mae'r IP hwn yn ei gwmpasu y manylir arno ymhellach yn rhan 2 y ddogfen.

Tabl 1 Mathau o Seilwaith	
Cludiant a Phrifyrdd	Rhwydweithiau Cerdded a Beicio Rhwydwaith Rheilffyrdd a Chludiant Cyhoeddus Rhwydwaith Ffyrdd
Addysg	Meithrin, Cynradd, Uwchradd, a Chweched Dosbarth
Iechyd	Cyfleusterau Gofal Sylfaenol Clinigau cymunedol ac ysbytai Gwasanaethau Iechyd Meddwl
Rheolaeth Amgylcheddol	Risg Llifogydd a Rheoli Dŵr Wyneb

Gwasanaethau Cyfleustodau	Dŵr a Dŵr Gwastraff Nwy Trydan Telathrebu
----------------------------------	--

Categoriâu Seilwaith

- 4.4 At ddibenion y cynllun, mae eitemau seilwaith wedi'u rhannu'n ddau gategori fel y nodir yn nhabl 2 isod. Mae'r categorïau hyn wedi'u cysylltu'n uniongyrchol â chyflwyno ac amseru cyflwyno safle fel yr amcangyfrifir yn y taflwybr tai a gynhwysir yn natganiad ysgrifenedig y CDLI ac maent yn arbennig o berthnasol mewn perthynas â'r Safleoedd Strategol (SS) a nodwyd, ond yn benodol cyflwyno a chamau Safleoedd Strategol Porth y Gogledd.

Tabl 2 Categoriâu Seilwaith
Galluogi Seilwaith (i hwyluso datblygiad) - Yr eitemau hynny a fydd angen eu cyflwyno cyn, neu o ddechrau'r camau datblygu perthnasol.
Seilwaith angenrheidiol (i wneud datblygiad yn dderbyniol mewn telerau cynllunio) - Eitemau y mae angen eu cyflwyno'n raddol a'u gweithredu ochr yn ochr â datblygiad newydd, er mwyn sicrhau bod ardaloedd yn cael eu gwasanaethu â chyfleusterau priodol dros amser.

- 4.5 Dangosir profformas datblygu safleoedd a ddyrannwyd yn Atodiad X y ddogfen hon sy'n nodi'r paramedrau seilwaith hanfodol ar gyfer pob safle sy'n angenrheidiol iddynt ddod ymlaen. Bydd mwy o fanylion yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Isadeiledd fel maent yn dod i'r amlwg ac wrth iddo gael ei ddiweddarau yn y dyfodol yn rhan o broses fonitro'r CDLI ffurfiol.
- 4.6 Nid yw'r dyraniadau tai an-strategol, a nodwyd ym mholisi HN1: Dyraniadau Tai y cynllun i'w archwilio gan y cyhoedd yn dibynnu ar unrhyw seilwaith galluogi ar gyfer eu cyflenwi. Ceisir seilwaith angenrheidiol, yn unol â'r profion a nodwyd mewn rheoliadau, fesul safle gyda throsolwg o'r seilwaith safle-benodol a ddarperir yn y profformas datblygu safle dyrannu a geir yn atodiad X.

5. Cyllido Seilwaith

- 5.1 Bydd ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth rhwng darparwyr gwasanaeth a seilwaith, llywodraeth genedlaethol / leol a'r diwydiant datblygu yn gwneud y mwyaf o adnoddau / cyfleoedd cyllido ac yn sicrhau y gellir darparu seilwaith mewn modd cydgysylltiedig, effeithlon ac amserol. Gall darpariaeth seilwaith hefyd gynnwys gweithio ar y cyd rhwng awdurdodau cyfagos, lle mae angen i seilwaith groesi ffiniau gweinyddol a lle mae atebion rhanbarthol i brosiectau penodol.

5.2 Mae yna nifer o ffynonellau cyllid posibl i gyflawni'r seilwaith gofynnol. Bydd y cyfleoedd ar gyfer y ffrydiau cyllido hyn yn dibynnu ar natur y seilwaith arfaethedig, rhwymedigaethau deddfwriaethol a statudol, argaeledd cyllid amgen a ffactorau lleol eraill. Mae arwydd o ffynonellau cyllid posibl wedi'u nodi isod, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Cyllid gan y Cyngor
- Cyllid Llywodraeth Cymru (y manylir arno ymhellach yn yr adran berthnasol ar y seilwaith a gynhwysir yn rhan 2 isod)
- Cyllid Llywodraeth y DU
- Bid Twf Rhanbarthol
- Cyllid Ewropeaidd
- Ymgwymerwyr statudol
- Cyllid Preifat
- Y Sector Gwirfoddol
- Datblygwyr
- Adran 106 a Chyllid CIL (unwaith y mabwysiadir y CDLI)
- Grantiau

5.3 Fodd bynnag, y rhai allweddol i gyflawni'r dyraniadau safle a nodwyd yn y CDLI yw Cyllid Llywodraeth Cymru, Datblygwyr, cyfraniadau Adran 106 ac ymgwymerwyr statudol, ac o bosibl CIL.

6. Cyfraniad Datblygwyr

Cytundebau Adran 106

6.1 Defnyddir cytundebau adran 106 fel math o rwymedigaeth cynllunio i oresgyn rhwystrau a allai fel arall atal caniatâd cynllunio rhag cael ei roi. Fel y nodwyd ym Mholisi Cynllunio Cymru gellir defnyddio cyfraniadau gan ddatblygwyr i wneud iawn am ganlyniadau negyddol datblygiad, i helpu i ddiwallu anghenion lleol, neu i sicrhau buddion a fydd yn gwneud datblygiad yn fwy cynaliadwy. Gall awdurdodau cynllunio lleol a datblygwyr ymrwymo i rwymedigaethau cynllunio i:

- gyfyngu ar ddatblygiad neu ddefnydd o'r tir;
- ei gwneud yn ofynnol i weithrediadau neu weithgareddau gael eu cyflawni yn, ar, o dan neu dros y tir;
- ei gwneud yn ofynnol i'r tir gael ei ddefnyddio mewn ffordd benodol; neu
- ei gwneud yn ofynnol i daliadau gael eu gwneud i'r awdurdod naill ai mewn un swm neu'n gyfnodol.

6.2 Ymhlith ffactorau eraill, dylid defnyddio rhwymedigaethau cynllunio dim ond pan fyddant:

- yn angenrheidiol;

- yn berthnasol i gynllunio;
- yn uniongyrchol gysylltiedig â'r datblygiad arfaethedig;
- yn weddol ac yn rhesymol gysylltiedig o ran graddfa a math y datblygiad arfaethedig; ac
- yn rhesymol ym mhob ffordd arall.

Ardreth Seilwaith Cymunedol (CIL)

- 6.3 Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn negodi cyfraniadau datblygwyr a rhwymedigaethau cynllunio fesul safle trwy Adran 106 o'r Ddeddf Gynllunio ac ar gyfer, gwaith priffyrdd, Adran 278 o'r Ddeddf Priffyrdd. Ym mis Ebrill 2010 daeth y Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol (fel y'u diwygiwyd) i rym. Mae'r Ardoll Seilwaith Cymunedol (CIL) yn fodd i ddatblygwyr wneud cyfraniad ariannol tuag at ddarparu seilwaith angenrheidiol. Dim ond pan fydd ganddo gynllun datblygu mabwysiedig y gall Awdurdod Lleol ddatblygu CIL. Er nad oes penderfyniad wedi'i wneud ynghylch a yw CIL yn gynnig hyfyw neu'n ymarferol yn Sir y Fflint, dim ond ar ôl mabwysiadu'r CDLI y gall ddod i rym beth bynnag.
- 6.4 Bydd faint o Ardoll Seilwaith Cymunedol y gellir ei godi yn cael ei bennu ar ôl paratoi, ymgynghori a chymeradwyo Atodlen Codi Tâl Drafft a bydd yn destun Ymchwiliad Cyhoeddus annibynnol (Archwiliad). Mae'r cydbwysedd rhwng seilwaith a ariennir trwy Ardoll Seilwaith Cymunedol a'r hyn y gellir ei ariannu trwy fecanweithiau eraill (gan gynnwys rhwymedigaethau cynllunio a phrif gynllunio safle) yn cael ei lywio gan brofion hyfywedd a deialog barhaus gyda datblygwyr, llywodraeth ganolog a chenedlaethol a ffynonellau cyllid eraill.
- 6.5 Felly gall yr ardoll fod yn offeryn pwysig wrth helpu i dalu am y seilwaith sy'n ofynnol i gefnogi datblygiad newydd. Yn bwysig, fodd bynnag, ni ellir defnyddio'r ardoll i unioni diffygion sy'n bodoli oni bai bod y datblygiad newydd yn gwneud y diffyg yn fwy difrifol. Mae'r Rheoliadau'n nodi'n glir na ddylid defnyddio Ardoll Seilwaith Cymunedol ar gyfer gwariant cyffredinol awdurdodau lleol (neu i gwrdd â diffygion presennol), ond ei fwriad yn bennaf yw darparu ar gyfer seilwaith newydd neu well i gyflawni'r twf a ragwelir ac a nodir mewn cynlluniau datblygu. Mae yna hefyd effeithiau negyddol gan CIL sy'n ymwneud yn benodol â'r cyfyngiadau cronni ar ddefnyddio A106 fel mecanwaith cyllido amgen, gan y gall hyn atal datblygiad cwbl dderbyniol fel arall rhag dod ymlaen.
- 6.6 Gellir paratoi CIL ar gyfer Cyngor Sir y Fflint ar ôl mabwysiadu'r CDLI.

Rhan 2

1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r rhan hon o'r IP yn darparu trosolwg o'r mathau o seilwaith a nodir yn Nhabl 1 (rhan 1) ac yn nodi, ar gyfer pob math o seilwaith, yr wybodaeth ganlynol lle bo hynny'n berthnasol:

- Y sefydliadau / asiantaethau arweiniol sy'n gyfrifol am gyflawni;
- Gwybodaeth Gyd-destunol (lle bo angen);
- Y ddarpariaeth bresennol ledled y Sir;
- Cysylltiadau ag Awdurdodau Cymdogol;
- Materion Allweddol;
- Gofynion Seilwaith;
- Amcangyfrif o gyflwyno a chyflenwi (os yw'n hysbys);
- Ffynonellau Ariannu;
- Cyfleoedd i rannu cyfleusterau (lle bo hynny'n briodol).

2. Cludiant a Phriffyrdd

a) Cerdded a Beicio

Sefydliadau / Asiantaethau Arweiniol:

- Cyngor Sir y Fflint
- Llywodraeth Cymru

Cyd-destun

2.1 Mae cefnogaeth strategol gref ar gyfer cynyddu cerdded a beicio ar bob lefel yn Llywodraeth Cymru; o Gyd-Gynllun Cludiant Lleol Gogledd Cymru drwodd i Strategaeth Cludiant Cenedlaethol Cymru. Mae cydnabyddiaeth glir, mewn termau strategol, o'r cyfraniad y gall cerdded a beicio ei wneud i gymdeithas Cymru a'r angen i gynyddu teithio llesol i fynd i'r afael â materion cyfredol mewn tloidi cludiant, llygredd aer, iechyd y cyhoedd, newid yn yr hinsawdd a'r economi.

2.2 Mae cludiant yn cyfrif am 14% o allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru, gyda chludiant ffordd yn cyfrannu mwy na 90 y cant o'r allyriadau. Mae'r Ddeddf Teithio Llesol yn amcangyfrif y gallai 30% o deithiau car yng Nghymru gael eu gwneud trwy deithio llesol. Amcangyfrifir bod yr arbedion allyriadau cyfartalog ar gyfer pob taith car sy'n cael eu disodli gan feicio neu gerdded yn allyriadau CO₂o 918gm a 224gm yn y drefn honno. Gall darparu modd i gerdded neu feicio yn lle defnyddio'r car chwarae rhan werthfawr wrth gyrraedd targedau newid hinsawdd Cymru.

2.3 Mae integreiddio gwasanaethau rheilffordd â dulliau cludiant lleol eraill yn allweddol ac mae'n rhan o ymrwymiad Llywodraethau Cymru i ddatblygu rhwydwaith cludiant integredig ar gyfer Gogledd Ddwyrain Cymru. Mae Glannau

Dyfrdwy wedi'i nodi fel canolbwynt cludiant strategol allweddol ac mae ymrwymiad i fuddsoddi yn y seilwaith presennol ac i wneud y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer gwell hygyrchedd ac integreiddio dulliau cludiant gan gynnwys gwasanaethau bysiau cenedlaethol / rhanbarthol / lleol a cherdded a beicio.

Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

- 2.4 Daeth Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 “Y Ddeddf” i rym ym mis Medi 2014. Ei phwrpas yw galluogi mwy o bobl i deithio'n llesol ar gyfer teithiau byr yn lle defnyddio cerbydau modur lle mae'n addas iddynt wneud hynny. Mae ‘Teithwyr Llesol’ a ‘Cherddwyr a Beicwyr’ yn golygu pobl sy'n cerdded, pobl sy'n defnyddio beiciau pedal (gan gynnwys beiciau electronig / e-feiciau ond heb gynnwys beiciau modur) a phobl sy'n defnyddio cymhorthion symudedd (gan gynnwys cadeiriau olwyn modur a sgwteri symudedd).
- 2.5 Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru gynhyrchu:
- Map Llwybr Presennol (ERM) yn dangos llwybrau cerdded a beicio (Llwybrau Teithio Llesol) sy'n addas ar gyfer gwneud Teithiau Teithio Llesol ac sy'n cwrdd â'r safon ofynnol a nodir yng Nghanllawiau Dylunio Teithio Llesol Llywodraethau Cymru.
 - Map Rhwydwaith Integredig (INM) yn dangos cynigion i ddarparu cyfleusterau cerdded a beicio newydd a gwell dros gyfnod o gynllun 15 mlynedd.
- 2.6 Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau ffyrdd newydd (gan gynnwys cynlluniau gwella ffyrdd) ystyried anghenion cerddwyr a beicwyr yn y cam dylunio. Rhaid i lwybr teithio llesol fod o fewn ardal ddynodedig mewn ardal awdurdod lleol. Yn Sir y Fflint mae'r aneddiadau canlynol o fewn yr ardaloedd dynodedig a nodwyd gan Weinidogion Cymru: Bwcle, Brychdyn, Cei Connah, Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy, y Fflint, Gorsedd, Treffynnon, yr Hôb, Coed-Llai, Yr Wyddgrug, Northop Hall, Penyffordd, Sandycroft, Shotton a Walwen.
- ### ***Darpariaeth Bresennol***
- 2.7 **Map Llwybr Presennol** - Mae gan Sir y Fflint rwydwaith beicio a cherdded helaeth a ddangosir ar y ddarpariaeth cerdded a beicio bresennol sy'n cwrdd â'r safonau gofynnol yn y Canllawiau Dylunio Teithio Llesol. Wrth gynhyrchu'r Map Llwybr Presennol (ERM) cyntaf hwn, canolbwyntiodd Cyngor Sir y Fflint ar brif lwybrau cerdded a beicio sy'n darparu mynediad o ardal breswyl fawr i ysgol, safle cyflogaeth, canolbwynt cludiant, cyfleuster iechyd, cyfleuster siopa a manwerthu ym mhob anheddiad dynodedig.
- 2.8 Datblygwyd cyfres o ERMs drafft, cynhaliodd Cyngor Sir y Fflint ymarfer ymgynghori 12 wythnos ar y mapiau hyn a helpodd yr ymatebion a dderbyniwyd i

lunio'r Map Llwybr Presennol a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru yn 2016. Mae hwn bellach wedi'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

- 2.9 Mae'r ddarpariaeth feicio bresennol yn Sir y Fflint yn bennaf yn ardal Glannau Dyfrdwy gan gynnwys Shotton, Cei Connah Sandycroft, Brychdyn a Pharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy. Mae'r llwybrau'n gymysgedd o ddefnydd a rennir oddi ar y ffordd, defnydd a rennir wrth ymyl y ffordd gerbydau a lonydd beicio o fewn y gerbyttffordd ac maent yn addas ar gyfer teithiau hamdden a chymudo.
- 2.10 Mae gan Sir y Fflint rwydwaith troedffyrdd helaeth mewn aneddiadau trefol a gwledig ond mae diffyg cysylltedd troedffyrdd rhwng aneddiadau sy'n addas ar gyfer teithiau teithio llesol. Mae'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus yn darparu cysylltedd rhwng aneddiadau, ond nid yw'r llwybrau hyn yn cwrdd â'r safonau sy'n ofynnol gan y Ddeddf Teithio Llesol i gael eu hyrwyddo ar gyfer teithiau teithio llesol bob dydd ac felly fe'u defnyddir yn bennaf at ddibenion hamdden.

Cysylltiadau i Awdurdodau Cymdogol

- 2.11 Mae Llwybr Sustrans NCN5 yn llwybr beicio pellter hir sy'n cysylltu Reading yn Ne Lloegr â Chaergybi yng Ngogledd Cymru. Trwy Sir y Fflint mae llwybr di-draffig yn cysylltu Caer â Bagillt, llwybr mewndirol ar y ffordd ac yna'n parhau rhwng Bagillt trwy Gorsedd a Gronant i Brestatyn.
- 2.12 Mae Llwybr Sustrans 568 yn cychwyn yng Nghaer ac yn rhedeg i'r gogledd o Afon Dyfrdwy i Bont Penarlâg lle mae'n croestorri gyda'r NCN5 am bellter byr ac yna'n croesi Cors Burton i mewn i Burton a Neston.
- 2.13 Mae Llwybr Sustrans 563 yn llwybr di-draffig yn bennaf ac mae'n cysylltu NCN5 yn Garden City â Little Stanney ac Ellesmere Port.
- 2.14 Mae Llwybr Arfordir Cymru yn Sir y Fflint yn ymestyn am oddeutu 40km rhwng Caer a Gronant gan gysylltu trefi a chymunedau arfordirol. Mae'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus helaeth yn cysylltu Sir y Fflint â'r holl Awdurdodau cyfagos.
- 2.15 **Map Rhwydwaith Integredig** - Cynllun uchelgeisiol 15 mlynedd ar gyfer seilwaith cerdded a beicio newydd a gwell. Mae'r Map Rhwydwaith Integredig (INM) yn nodi gweledigaeth i wella seilwaith ar gyfer cerddwyr a beicwyr ledled y Sir dros gyfnod o 15 mlynedd. Datblygodd Cyngor Sir y Fflint Fap Rhwydwaith Integredig drafft y Sir ynghyd ag amserlenni drafft gan ddefnyddio'r egwyddorion cynllunio a dylunio rhwydwaith a gynhwysir yng Nghanllaw Dylunio Teithio Llesol Llywodraethau Cymru. Mae'r cynigion yn gymysgedd o ddarpariaeth ar gyfer cyfleusterau cerdded, beicio a defnydd a rennir ac yn darparu cyfleoedd ar gyfer Teithiau Teithio Llesol i amrywiol wasanaethau a chyfleusterau, ond mae llawer hefyd yn cynnig darpariaeth hamdden.

- 2.16 Yn yr un modd â'r Map Llwybr Presennol, helpodd yr ymatebion a dderbyniwyd trwy broses ymgynghori i lunio'r Map Rhwydwaith Integredig a'r amserlen a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru yn 2018 ac sydd bellach wedi'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Materion Allweddol

- 2.17 Mae cyfleoedd i gynyddu cyfran y modd trwy gludiant gyhoeddus a theithio llesol. Mae cyfran uchel o deithiau cymudwyr yn llai na 5km ac o bosibl gellir eu cynnal trwy ddulliau teithio llesol.
- 2.18 Mae nifer o faterion yn effeithio ar y nifer sy'n cerdded a beicio, megis nifer a chyflymder traffig, pryderon diogelwch, diffyg seilwaith priodol, ansawdd a chyflwr llwybrau a phwyntiau croesi ynghyd ag eitemau ategol fel arwyddion, seddi, goleuadau, parcio beiciau, byrddau gwybodaeth a storio beiciau. Mae cyfleoedd i gael gwared ar rwystrau i gerdded a beicio.
- 2.19 **Teithio i'r gwaith (Teithio Personol yng Nghymru - 2012)** Yng Nghymru mae 81% o'r siwrneiau i'r gwaith mewn car (mae hyn wedi aros yn ddigyfnewid yn fras ers 10 mlynedd), 10% yn cerdded, 4% yn defnyddio bysiau, 2% yn mynd ar y trê, 1% yn beicio ac 1% yn defnyddio dulliau eraill.
- 2.20 Gall y Broses Gynllunio gynnig cyfle i gynyddu lefelau cerdded a beicio i fynd i'r afael â'r materion hyn trwy sicrhau bod seilwaith newydd a gwell yn cael ei ddarparu i gysylltu datblygiadau newydd â gwasanaethau a chyfleusterau allweddol lle bo'n briodol i wneud hynny.

Gofynion Seilwaith

- a) 2.21 Mae llawer o'r cynigion seilwaith cerdded a beicio sydd wedi'u cynnwys ar Fap Rhwydwaith Integredig Cyngor Sir y Fflint yn ymwneud â'r dyraniadau a nodwyd yn y CDLI. Mae'r Atodlenni Map Rhwydwaith Integredig yn rhoi manylion yr holl gynlluniau gwella canlynol

<https://www.flintshire.gov.uk/en/PDFFiles/Roads-and-Travel/Active-Travel-Docs/INM-Revised-Schedule-2.pdf>

Mynediad Cynaliadwy rhwng yr Wyddgrug a Pharth Menter Glannau Dyfrdwy: Darparu llwybrau cerdded a beicio newydd a gwell rhwng yr Wyddgrug a Pharth Menter Glannau Dyfrdwy sy'n cysylltu cymunedau'r Wyddgrug, Bwcle, Penyffordd a Brychdyn, Saltney, Sandycroft a chysylltiadau â gorsafoedd rheilffordd presennol Bwcle a Phenyffordd. Bydd y llwybrau a nodwyd ar gyfer cyfleusterau cerdded a beicio newydd a gwell yn cysylltu â'r rhwydwaith beicio helaeth presennol o fewn Parth Menter Glannau Dyfrdwy (NCN5 a Llwybr Cenedlaethol 568). Bydd darparu'r gwelliannau seilwaith hyn yn darparu atebion cludiant integredig cynaliadwy ar gyfer mynediad at gyfleoedd cyflogaeth nid yn unig o fewn Parth Menter Glannau Dyfrdwy ond hefyd y tu hwnt i Gilgwri, Lerpwl, Caer a Wrecsam. Mae cyfleoedd allweddol i gefnogi'r

- gwelliannau uchod o'r safleoedd a ddyrannwyd ym Mholisi PE1 Dyraniadau Tir Cyflogaeth Cyffredinol er enghraifft yn Awyrofod Caer, Brychdyn, Estyniad Manor Lane Parc Penarlâg, Brychdyn, Parc Busnes yr Wyddgrug, yr Wyddgrug, Dwyrain Ffordd Cer, Queensferry, River Lane, Saltney a'r Safleoedd Strategol Allweddol ym Mhorth y Gogledd a Warren Hall.
- b) Mynediad Cynaliadwy sy'n cysylltu aneddiadau lleol: Nododd y broses ddatblygu INM yr angen i gysylltu aneddiadau lleol yn Sir y Fflint i greu rhwydwaith cerdded a beicio cydlynol a chefnogi teithiau teithio llesol. Ar hyn o bryd nid yw'r union lwybrau wedi'u nodi gan y bydd angen Astudiaethau Dichonoldeb i bennu'r union aliniad a gwaith. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i gefnogi cyflwyno cynigion yn y dyfodol i gysylltu'r Wyddgrug a'r Fflint, yr Wyddgrug â Northop Hall, yr Wyddgrug ag Ewlo a rhannau anghyflawn o Lwybr Arfordir Dyfrdwy. Hefyd dolenni posibl o'r safleoedd a ddyrannwyd ym Mholisi PE1 Dyraniadau Tir Cyflogaeth Cyffredinol er enghraifft yn safleoedd Awyrofod Caer Brychdyn, Mostyn ger Dociau Mostyn a safleoedd Dyraniadau Tai, Polisi HN1 Ffordd Treffynnon / Green Lane, Ewlo a Cae Isa, New Brighton.
- c) Cysylltiadau Teithio Llesol Lleol: Mae'r INM yn cynnwys cynigion gwella seilwaith i gefnogi teithiau teithio llesol i gael mynediad at wasanaethau a chyfleusterau lleol gan drigolion lleol. Mae cyfleoedd allweddol i gefnogi'r gwelliannau hyn o'r safleoedd a ddyrannwyd yn PE1 Dyraniadau Tir Cyflogaeth Cyffredinol Drury New Rd Bwcle, Parc Busnes Maes-glas Cam II, Maes-glas, Parc Busnes Maes-glas Cam III, Maes-glas, Ystad Ddiwydiannol yr Antelope, Rhydymwyn a Pholisi HN1 Datblygu Tai Newydd Cynigion Stryd y Ffynnon, Bwcle, Broad Oak Holding, Ffordd y Cei, Cei Connah, Highmere Drive Cei Connah, Ash Lane Penarlâg a Ffordd Wrecsam Abermorddu.
- d) Coridorau Gwyrdd: Darparu mynediad cynaliadwy rhwng Ystad Ddiwydiannol Rhydymwyn a'r Wyddgrug ar hyd yr hen reilffordd gyda chyfleoedd i ddarparu mesurau i gefnogi bioamrywiaeth hefyd. Byddai'r llwybr hefyd yn gwasanaethu fel cyfleuster hamdden yn ogystal â mynediad cyflogaeth yn yr Ystad Ddiwydiannol a mynediad at wasanaethau a chyfleusterau yn yr Wyddgrug. Mae cyfleoedd allweddol i gefnogi'r gwelliannau hyn o'r safle a ddyrannwyd ym mholisi CDLI PE1 Dyraniadau Tir Cyflogaeth Cyffredinol, Ystad Ddiwydiannol yr Antelope Rhydymwyn.
- 2.22 Mae'n ofynnol o dan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 i Awdurdodau Lleol ailgyflwyno eu INM bob tair blynedd a fydd yn caniatáu i ddiwygiadau gael eu gwneud i'r Mapiau i adlewyrchu cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y CDLI. Dyma gyfle i alinio datblygiad a gwelliannau seilwaith teithio llesol yn agosach.
- Amcangyfrif o'r camau cyflwyno a chyflawni***
- 2.23 Mae graddoli a chyflawni'r seilwaith yn ymwneud â'r Categoriâu Seilwaith y manylir arnynt yn nhabl 2 (rhan1) uchod. Mae angen darparu seilwaith teithio llesol ar bob

safle. Dylai'r seilwaith hwn gael ei weithredu cyn gynted â phosibl er budd cymunedau presennol a'r rhai sydd wedi'u cynllunio.

Ffynonellau Ariannu

- 2.24 Pan fydd yr angen am seilwaith cerdded a beicio yn codi o ganlyniad i'r dyraniadau a nodwyd yn y cynllun, bydd darpariaeth ar ac oddi ar y safle yn cael ei sicrhau trwy brosesau cynllunio prif safle a thrwy gyfraniadau datblygwyr lle bo angen yn unol â pholisi'r CDLI STR6Cyfleusterau Gwasanaethau a Seilwaith.
- 2.25 Mae prosiectau cerdded a beicio eraill, nad ydynt yn gysylltiedig â datblygu dyraniadau a nodwyd yn y cynllun yn debygol o gael eu hariannu trwy ddulliau eraill fel Cronfa Cludiant Lleol Llywodraeth Cymru, Grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau, Cronfa Teithio Llesol a thrwy brosiectau cydweithredol gyda rhanddeiliaid eraill.

<http://www.flintshire.gov.uk/en/Resident/Streetscene/Active-Travel.aspx>

Llwybrau Sustrans yn Sir y Fflint




Figure 1: Sustrans Cycling Routes

¹¹ Transport Topic Paper <http://wrexhamldp.wrexham.gov.uk>

b) Bysiau

Sefydliadau / Asiantaethau Arweiniol

- Cyngor Sir y Fflint
- Llywodraeth Cymru (Trafnidiaeth Cymru)
- Gweithredwyr Cludiant Cyhoeddus (cwmnïau bysiau)

Cyd-destun

2.26 Mae angen i gludiant gyhoeddus fod yn fwy deniadol fel dewis arall i deithio mewn car preifat. Cefnogir gwelliannau seilwaith sy'n lleihau amseroedd teithiau bws ac yn gwella dibynadwyedd gwasanaethau yng Nghynllun Cludiant Cenedlaethol Llywodraeth Cymru a Chyd-Gynllun Cludiant Lleol Gogledd Cymru. Mae angen y gwelliannau hyn hefyd er mwyn annog gweithredwyr cludiant gyhoeddus i fuddsoddi yn eu fflyd a gwella amllder a chynhwysedd y gwasanaethau y maent yn eu darparu.

- 2.27 Mae integreiddio gwasanaethau rheilffordd â dulliau cludiant lleol eraill yn allweddol ac mae'n rhan o ymrwymiad Llywodraethau Cymru i ddatblygu rhwydwaith cludiant integredig ar gyfer Gogledd Ddwyrain Cymru. Mae Glannau Dyfrdwy wedi'i nodi fel canolbwynt cludiant strategol allweddol ac mae ymrwymiad i fuddsoddi yn y seilwaith presennol ac i wneud y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer gwell hygyrchedd ac integreiddio dulliau cludiant gan gynnwys gwasanaethau bysiau cenedlaethol / rhanbarthol / lleol a cherdded a beicio.

Darpariaeth Bresennol

- 2.28 Mae Sir y Fflint yn cael ei gwasanaethu'n gymharol dda gan rwydwaith helaeth o wasanaethau bysiau er yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae nifer ac amllder y gwasanaethau wedi lleihau oherwydd colli nifer o weithredwyr bysiau lleol. Ar hyn o bryd mae mwyafrif y gwasanaethau lleol yn Sir y Fflint yn cael eu gweithredu gan Arriva Bus Wales.

Cysylltiadau i Awdurdodau Cynddogol

- 2.29 Mae gwasanaethau bysiau rhanbarthol allweddol yn cymryd y llwybrau canlynol: Glannau Dyfrdwy i Gaer; Yr Wyddgrug; Fflint; Rhuthun, Dinbych a Wrecsam.

Materion Allweddol

- 2.30 Dros y degawd diwethaf mae nifer y gweithredwyr bysiau a gwasanaethau lleol sy'n cael eu darparu yng Nghymru wedi gostwng yn sylweddol. Yn lleol mae colli nifer o weithredwyr yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi cael effaith amlwg ar gwmpas y rhwydwaith gyda lefel y gwasanaethau sy'n cael eu darparu'n fasnachol a'u cefnogi yn llawer is. Mae cyfleoedd trwy'r dyraniadau tai a chyflogaeth i wella gwasanaethau yn ôl yr angen fel rhan o becyn o atebion cludiant cynaliadwy, y mae rhai ohonynt wedi'u cysylltu'n uniongyrchol â pholisi STR5 Cludiant a Hygyrchedd a PC7 Cludiant Teithwyr yn y CDLI.

Gofynion Seilwaith

- 2.31 Mae Cynllun Glannau Dyfrdwy 2016 yn cyfleu sut y gellir gwireddu dyheadau twf Gogledd Cymru ac Ardal Mersi Dyfrdwy ac mae'n cynnwys manylion datrysiad cludiant integredig ar gyfer yr ardal. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys y gwelliannau canlynol:

Rhwydwaith Bysiau - Ymyriadau Allweddol

- Amserau teithiau bws wedi'u gwella'n sylweddol ar hyd yr A548 a B5129 trwy gyflwyno mesurau blaenoriaethu bysiau a darparu Lonydd Bysiau pwrpasol o'r Queensferry i Shotton Lane;
- Darparu Hwb Bws / Trên pwrpasol yng Ngorsaf Shotton;
- Darparu Hwb cyfnewidfa Bws / Bws Gwennol yn Garden City;
- Gan ddarparu Gwasanaeth Bws Gwennol rheolaidd, sy'n gweithredu ar lwybrau pwrpasol 'Bws a Beicio yn Unig' sy'n cysylltu Parthau 1 i 4 a Phorth y Gogledd trwy lwybr ar draws, bydd y gwasanaeth hwn yn rhyngweithio â Gorsaf Reilffordd Parkway Glannau Dyfrdwy, Cyfleuster Parcio a Theithio a'r

Gyfnewidfa Bws Gwennol. Bydd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu gan fysiau allyriadau isel presennol Sir y Fflint.

- Gweithredu trefniant Tocynnau Integredig llawn ar draws yr holl weithredwyr bysiau yn y Bartneriaeth Ansawdd Bysiau a gefnogir yn gyfreithiol sy'n gweithredu ar y Rhwydwaith Craidd Strategol

Bydd yr ymyriadau allweddol yn darparu datrysiaid cludiant gynaliadwy tymor hir i integreiddio pob dull cludiant yn llwyddiannus a darparu ar gyfer gofynion pob un, wrth gynnal a hyrwyddo wrth ei wraidd, Wasanaeth Cludiant Cyhoeddus cynaliadwy, fforddiadwy ac ecogyfeillgar gyda chysylltiadau â Sir y Fflint i gyd a'r rhanbarth ehangach.

Amcangyfrif o'r camau cyflwyno a chyflawni

- 2.32 Mae graddoli a chyflawni'r seilwaith yn ymwneud â'r categorïau seilwaith y manylir arnynt yn nhabl 2 (rhan1) uchod. Mae'n debygol y bydd angen darparu seilwaith bysiau ar bob safle; gan gysylltu'n arbennig â chyrchfannau allweddol a bydd yn arbennig o berthnasol i'r ddau Safle Strategol. Dylai'r seilwaith hwn gael ei weithredu cyn gynted â phosibl er budd cymunedau presennol a'r rhai sydd wedi'u cynllunio a dylid ei integreiddio â gwelliannau priffyrdd a chludiant cyhoeddus eraill.

Ffynonellau Ariannu

- 2.33 Daw cyllid seilwaith / gwasanaethau bysiau gan Lywodraeth Cymru, Network Rail (Grant Cymorth Gwasanaethau Bws, Cronfa Cludiant Lleol / Cronfa Rhwydwaith Cludiant Lleol), cyfraniadau datblygwyr a Chronfa Gyfalaf Gyffredinol y Cyngor.

c) Rhwydwaith Rheilffyrdd

Sefydliadau / Asiantaethau Arweiniol

- Network Rail/Virgin Trains a Trafnidiaeth Cymru
- Llywodraeth y DU
- Llywodraeth Cymru
- Cyngor Sir y Fflint
- Cludiant Cymunedol Lleol
- Merseytravel

Cyd-destun

- 2.34 Er gwaethaf y ffaith nad yw gwasanaethau'n cael eu gwella'n sylweddol o ran amlder am dros ddeng mlynedd, gellir ystyried bod gwasanaethau rheilffordd yn Sir y Fflint yn llwyddiannus. Yn Sir y Fflint mae dwy brif reilffordd, y llwybr Caer i Gaergybi a llinell Wreccsam Bidston. Ers 2006/2007 mae lefelau teithwyr rheilffordd wedi amrywio ond ar y cyfan bu cynnydd o dros 60% ar linell Wreccsam Bidston. (Ystadegau ORR)

- 2.35 Mae cyfran y rheilffyrdd o deithio i'r gwaith yn gymharol isel i'r Sir, ond mae hyn yn adlewyrchu'r defnydd o reilffordd yn bennaf ar gyfer teithio y tu allan i'r ardal yn hytrach nag yn yr ardal leol. Fodd bynnag, mae rhagolygon twf a gynhyrchwyd gan Network Rail yn eu hastudiaeth Llwybrau Cymru (2015) yn cydnabod pwysigrwydd cynyddol cysylltiadau â'r gogledd-orllewin i gael mynediad at gyflogaeth. Mae'r astudiaeth hon yn rhagweld y bydd galw teithwyr o Lwybr Arfordir Gogledd Cymru i Ogledd Orllewin Lloegr yn cynyddu 25% hyd at y flwyddyn 2023.
- 2.36 Cefnogir ymestyn darpariaeth gwasanaeth, datblygu gorsafoedd rheilffordd newydd a gwella mynediad i orsafoedd presennol / cyfleusterau cysylltiedig yng Nghynllun Cyllid Cludiant Cenedlaethol Llywodraeth Cymru 2018 a'r Cyd-Gynllun Cludiant Leol 2015. Bydd canlyniad proses fasnachfrait Cymru a'r Gororau hefyd yn dylanwadu'n uniongyrchol ar nifer o'r materion hyn sydd y tu allan i broses y CDLI ac nad ydynt yn gysylltiedig ag o.
- 2.37 Yn ogystal, mae buddsoddiad sylweddol yn cael ei geisio mewn seilwaith rheilffyrdd trwy Brospectws 360 y Trac Twf (GT), gan alluogi twf economaidd yn rhanbarth Gogledd Cymru a Mersi Dyfrdwy, gan gysylltu â Phwerdy'r Gogledd a llwybrau Ewropeaidd. Y weledigaeth ar gyfer cludiant trwy GT360 yw ar gyfer teithiau cyflymach, glanach, amlach a chyffyrddus i'r lle iawn ar yr amser cywir ac fe'i cefnogir gan nifer o amcanion sy'n cynnwys:
- Hybiau o ansawdd uchel sydd â chysylltiad da, yn ganolfannau ynddynt eu hunain;
 - Y cerbydau diweddaraf;
 - Profiad gwyb i gwsmeriaid a busnes;
 - Cysylltedd rhyngwladol â marchnadoedd byd-eang; a
 - marchnadoedd mwy o ran teithwyr a chludo nwyddau
- 2.38 Yn cefnogi'r hybiau yn y prospectws GT360 mae 'Symud Gogledd Cymru Ymlaen: Ein gweledigaeth ar gyfer Gogledd Cymru a Metro Gogledd Ddwyrain Cymru' a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2017. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r potensial i sicrhau twf economaidd yn rhanbarth Gogledd Cymru trwy system gludiant fodern o ansawdd uchel, sy'n cysylltu busnes â marchnadoedd a sicrhau bod buddsoddiad yn y system gludiant yn y rhan hon o Gymru yn rhan gystadleuol a chysylltiedig o Bwerdy'r Gogledd. Mae'r cysyniad metro wedi'i gyfeirio at ddarparu gwelliannau cludiant gyhoeddus o ran rheilffyrdd, bysiau a theithio llesol, gan gysylltu pobl â swyddi a gwasanaethau i'w helpu i gyrraedd eu potensial:
- Teithiau gwaith cludiant gyhoeddus, o ddrws i ddrws o fewn awr;
 - Cludiant cyhoeddus modern cysylltiedig, sy'n cynnig dewisiadau amgen i'r car.

2.39 Mae £50 miliwn wedi'i ymrwymo gan Lywodraeth Cymru i symud ymlaen gynlluniau ar gyfer Metro Gogledd Ddwyrain Cymru; yn berthnasol i Sir y Fflint mae datblygu'r Hybiau Cludiant Integredig a Gwell Mynediad i Reilffyrdd, datblygu opsiynau i wella mynediad ar drenau, bysiau a theithio llesol i safleoedd cyflogaeth allweddol yng Nglannau Dyfrdwy.

Darpariaeth Bresennol


2.40 Ar hyn o bryd mae wyth gorsaf reilffordd cymudwyr wedi'u lleoli ledled y sir; Y Fflint a Shotton (Lefel Isel) ar Brif Linell Arfordir Gogledd Cymru, a'r Hôb, Penyffordd, Bwcle, Penarlâg, Shotton (Lefel Uchel) a Phont Penarlâg ar Linell y Gororau. Network Rail sy'n berchen ar y rhain i gyd ac maent yn cael eu rheoli gan Trafnidiaeth Cymru sy'n gweithredu'r holl wasanaethau yn y gorsafoedd hyn ar wahân i Virgin Trains sy'n galw yn y Fflint fel rhan o Wasanaeth Uniongyrchol Caergybi i Euston Llundain.

Mae Trafnidiaeth Cymru yn gweithredu gwasanaethau dychwelyd bob awr yn uniongyrchol rhwng Wrecsam Canolog a Bidston, sy'n galw yng ngorsafoedd Llinell y Gororau; sylwer bod Pont Penarlâg yn 'stop ar gais'.

Mae defnydd cymudwyr wedi parhau i gynyddu ar Linell y Gororau trwy gydol y ddegawd diwethaf, felly trwy resymoli gwasanaethau presennol ar hyd y lein, mae gan Gyngor Sir y Fflint ddyheadau i ddatblygu mwy o ddefnydd gan gymudwyr.

Mae gwasanaethau'n galw yng ngorsaf y Fflint a Shotton (Lefel Isel) ar Brif Linell Arfordir Gogledd Cymru i gyrchfannau fel Caer, Crewe, Maes Awyr Manceinion, Birmingham Rhyngwladol a Chaerdydd; i'r Ddwyrain a Chaergybi a Llandudno i'r Gorllewin.

Mae gwasanaethau cysylltu yng Nghaer, Manceinion Piccadilly a'r Amwythig ar gael i ystod o gyrchfannau eraill.



Ffigur 2: Llwybrau Rheilffordd Sir y Fflint a Chysylltedd Rhwydwaith Rhanbarthol

Cysylltiadau i Awdurdodau Cymdogol

2.41 Hyrwyddir materion rheilffyrdd strategol trwy gydweithrediad rhanbarthol trwy Gynghrair Mersi Dyfrdwy (MDA) a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (NWEAB). Mae'r cyrff hyn yn hyrwyddo anghenion rheilffyrdd y rhanbarth ac yn pwysleisio pwysigrwydd cysylltedd â Gogledd Orllewin Lloegr, Maes Awyr Manceinion a chysyniad Pwergy'r Gogledd. Rhaid gweld y materion allweddol a'r gofynion seilwaith sydd eu hangen yn Sir y Fflint a drafodir isod hefyd yng nghydedstun y seilwaith sydd ei angen ar y lefel isranbarthol a hyrwyddir gan yr MDA a NWEAB e.e. trydaneiddio'r llinell arfordirol a chysylltiadau â HS2.

Materion Allweddol

- 2.42 Mae twf rhanbarthol wedi'i gyfyngu gan seilwaith cludiant, mae cysylltiad agos rhwng economïau Gogledd Cymru, Glannau Dyfrdwy, Glannau Mersi a Manceinion ac mae'r rhwydweithiau ffyrdd yn y rhan hon o'r wlad yn gweithredu hyd eithaf eu gallu yn ystod yr oriau brig. Gwaethygir hyn gan fod buddsoddiad mewn seilwaith cludiant gyhoeddus ar ei hôl hi o'i gymharu â buddsoddiad mewn ffyrdd, gan ei wneud yn ddewis llai deniadol. Bydd buddsoddiad rheilffordd yn cefnogi ardal Mersi Dyfrdwy Gogledd Cymru trwy ddatgloi potensial economaidd trwy gysylltiadau gwell â'r Gogledd Orllewin.
- 2.43 Mae yna ddiffyg tocynnau hygyrch a di-dor rhwng moddau sy'n rhwystro annog newid moddol ac yn cyfyngu ar orwelion teithio, yn enwedig ar gyfer cymunedau mwy difreintiedig. Mae'r diffyg integreiddio tocynnau rhwng gwahanol weithredwyr bysiau a rheilffyrdd er enghraifft yn cyfrannu at anneniadoldeb cludiant cyhoeddus i rai pobl.
- 2.44 Mae angen gwella mynediad a chyfleusterau teithwyr ar lawer o orsafoedd mawr a bach ar draws y rhwydwaith reilffyrdd rhanbarthol. Ar hyn o bryd mae Network Rail yn gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru i ddarparu gwell gorsafoedd.

Gofynion Seilwaith

- 2.45 Nid oes unrhyw ofynion seilwaith rheilffyrdd sy'n uniongyrchol gysylltiedig â chyflawni'r dyraniadau tai, ond bydd gwelliannau i reilffyrdd o fudd i dwf cyffredinol yr ardal ac amcanion polisi eraill yn y CDLI. Mae Cynllun Glannau Dyfrdwy 2016 yn cyfleu sut y gellir gwireddu dyheadau twf Gogledd Cymru ac Ardal Mersi Dyfrdwy ac mae'n cynnwys manylion datrysiad cludiant integredig ar gyfer yr ardal. Mae'r cynllun yn cynnwys y gwelliannau canlynol i'r gwasanaeth rheilffordd:

Gwelliannau Rheilffordd - Ymyriadau Allweddol

- Gwelliannau i'r rheilffyrdd yng Ngorsaf Shotton - Cysylltu'r gorsafoedd Lefel Uchel a Lefel Isel;
- Gwelliannau ffyrdd yng Ngorsaf Shotton - darparu Bws Gwennol / Hwb Trên;
- Darparu gorsaf reilffordd newydd 'Parkway Glannau Dyfrdwy' ar reilffordd y Gororau, Wrecsam / Bidston;
- Arhosfan prif linell Dwyrain—Gorllewin yr Arfordir yn Shotton, gan ddarparu gwell cyswllt busnes o'r DIP i Ogledd Orllewin Lloegr a Llundain;
- Gwell seilwaith parcio ar hyd llinell y Gororau, yn enwedig Gorsaf Penyffordd - gan ddarparu'r opsiwn ar gyfer cyswllt 'Parcio a Thrên' i'r DIP;
- Amledd ac ansawdd gwasanaeth sydd wedi'i wella'n sylweddol ar Linell Wrecsam – Bidston;
- Trên Tram, Rheilffordd Ysgafn neu opsiwn trên wedi'i bweru gan Fatri, a ddarperir trwy ymestyn y gwasanaethau Merseryrail sy'n gweithredu o Bidston ar hyn o bryd.

- Mae'r opsiynau gwella tocynnau sy'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd yn cynnwys tocynnau trawsffiniol rhwng Merseytravel ac ardaloedd gweithredol Trafnidiaeth Cymru.

Amcangyfrif o'r camau cyflwyno a chyflawni

- 2.46 Mae Cynllun Glannau Dyfrdwy yn nodi nifer o brosiectau sy'n mynd rhagddynt o fewn yr awdurdod mewn perthynas â seilwaith rheilffyrdd. Er nad yw'r rhain yn uniongyrchol gysylltiedig â chyflawni'r dyraniadau a nodwyd yn y CDLI, maent yn debygol o ddigwydd dros oes y cynllun a byddant yn cyfrannu at gyflawni gweledigaeth ac amcanion y CDLI.

Ffynonellau Ariannu

- 2.47 Mae ffynonellau cyllid ar gyfer seilwaith rheilffyrdd ledled y sir, rhanbarthol a chenedlaethol yn cynnwys yr Adran Gludiant, Network Rail a Llywodraeth Cymru. Ymhlith y cyfleoedd cyllido ychwanegol mae'r Gronfa Cludiant Lleol, Cronfa Rhwydwaith Cludiant Lleol, cyllid Cyfalaf Cyngor Sir y Fflint a chyfraniadau datblygwyr.

d) Rhwydwaith Ffyrdd

Sefydliadau / Asiantaethau Arweiniol

- Cyngor Sir y Fflint
- Llywodraeth Cymru
- Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru
- Trafnidiaeth Cymru
- Datblygwyr

Ffigur 3 Ardal Cynllun Cludiant Lleol Gogledd Cymru



Cyd-destun

- 2.48 Mae defnyddio ceir yn dominyddu teithio i'r gwaith a theithio yn gyffredinol yn ardal Cyngor Sir y Fflint. Dangosir hyn yn y ffigurau teithio i'r gwaith, yng Ngogledd Cymru mae 75.1% o bobl yn teithio i'r gwaith mewn car sy'n uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru o 74.2% ac yn Sir y Fflint mae'r ffigur hwn hyd yn oed yn uwch, sef 79.5%, sydd i fyny o Data Cyfrifiad 2001 a oedd yn 77%.
- 2.49 Mae coridor yr A483 / A55 yn allweddol bwysig i'r sir a'r rhanbarth fel catalydd ar gyfer twf economaidd ehangach. Mae economi'r rhanbarth ehangach yn amrywiol a'r sectorau allweddol yw gweithgynhyrchu, ynni a thwristiaeth yn ogystal â swyddi yn y sector cyhoeddus. Mae gan y Parth Menter dynodedig ar Lannau Dyfrdwy uchelgeisiau i gael ei gydnabod fel canolfan ar gyfer rhagoriaeth gweithgynhyrchu a thechnoleg uwch ar raddfa fyd-eang. Mae Glannau Dyfrdwy yn gorchuddio mwy na 2,000 hectar ac mae wedi'i leoli'n strategol ar gyfer marchnadoedd yng Ngogledd Orllewin Lloegr a Chanolbarth Lloegr. (Ffynhonnell Cynllun Cludiant Lleol Gogledd Cymru 2015- 2020).
- 2.50 Mae'r A55 hefyd yn llwybr Cludiant Rhwydwaith Traws-Ewropeaidd (TEN-T) strategol; mae llwybrau rhyngwladol o fudd i economi Gogledd Cymru gyda gwariant yn y rhanbarth ac yn cynnig mynediad strategol i farchnadoedd ar gyfer busnesau. (Ffynhonnell NWLTP)

2.51 Yn ogystal â llwybrau sydd â swyddogaeth strategol ar gyfer cysylltiadau trawsffiniol, yn y rhanbarth mae'r rhwydwaith cefnffyrdd a'r prif gysylltiadau ag ef yn hanfodol ar gyfer darparu mynediad at swyddi a gwasanaethau. Mae pobl yn symud yn sylweddol am swyddi rhwng ac o fewn awdurdodau lleol yn ddyddiol.

Materion Allweddol

- Cyrhaeddwyd “pwynt critigol mewn amser” o ran penderfyniadau seilwaith cenedlaethol e.e. Cyhoeddiad LIC mai'r llwybr Coch yw eu opsiwn a ffafrir ar gyfer yr A494 / A55, canlyniad Masnachfrait Rheilffordd Genedlaethol a'r Strategaeth Bysiau Ranbarthol sy'n dod i'r amlwg ac ati;
- Tagfeydd traffig yn gwaethgu yn y DIP ac ar hyd coridor Glannau Dyfrdwy;
- Materion recriwtio a chadw staff ar gyfer busnesau o fewn DIP gydag un o'r rhesymau yn cael ei ddyfynnu fel diffyg system gludiant effeithiol i'r Parc;
- Cyfleoedd yn codi o ddatblygu cynllun Porth y Gogledd;
- Materion parcio ar y briffordd o fewn DIP, gan greu problemau diogelwch a mynediad / allanfa i fusnesau;
- Ymddygiad gwrthgymdeithasol o barcio tryciau ar DIP ac ar hyd Coridor A55 Gogledd Cymru.

2.52

Ein nod yw gweithio tuag at gynllunio, darparu a hyrwyddo rhwydwaith cludiant diogel, integredig a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Mae hyn yn hanfodol i gefnogi ein nodau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach i ddarparu sir hygyrch sydd â chysylltedd da.

Gweler Ymyriadau Allweddol y Rhwydwaith Bysiau

Bydd y fethodoleg a ddefnyddir i sefydlu datrysiad cludiant integredig ar gyfer y DIP yn cael ei defnyddio fel enghraifft arfer gorau a fydd yn cael ei hefelychu ledled y Sir gyfan mewn lleoliad Strategol allweddol, a thrwy hynny'n cefnogi potensial twf economaidd.

Gofynion Seilwaith

2.53 Mae cyd-gynllun Cludiant Lleol Gogledd Cymru yn nodi nifer o ymyriadau i wella gwytnwch y rhwydwaith cludiant, gwelliannau i allu a diogelwch/ gwelliannau i fannau tagfeydd, gwell integreiddiad â gwasanaethau cludiant gyhoeddus strategol, gwell cysylltiadau â chyflogaeth a gwell mynediad at wasanaethau.

2.54 Ar gyfer gwelliannau Priffyrdd yn Sir y Fflint mae'r cynllun hwn yn nodi:

- Gwelliannau Gwydnwch y Rhwydwaith Cludiant – gwelliannau i'r A494 / 55 Llwybr i Gymru i'r rhwydweithiau priffyrdd lleol
- Gwelliannau Capasiti a Diogelwch / Gwelliannau Mannau Tagfeydd - Gwelliannau Cyffordd A550 / B5373 – Yr Hôb; Gwella cysylltedd cludiant i rwydwaith priffyrdd Cefnffordd yr A55 / A483; Yr Wyddgrug i'r Fflint a'r gwelliannau i'r A548;

- Integreiddio â Gwasanaethau Cludiant Cyhoeddus - Gwell cysylltiadau â chyflogaeth; Cysylltiadau strategol lleol â DIP/ Parth Menter a Pharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy; Gwelliannau mynediad i ganolfan siopa Brychdyn; B5129 Sandycroft i Caer a Airbus Brychdyn (llwybr beicio).

2.55 Mae Cynllun Glannau Dyfrdwy 2016 yn cyfleu sut y gellir gwireddu dyheadau twf Gogledd Cymru ac Ardal Mersi Dyfrdwy ac mae'n cynnwys manylion datrysiad cludiant integredig ar gyfer yr ardal. Mae'r cynllun yn cynnwys y gwelliannau canlynol i briffyrdd:

Gwelliannau Priffyrdd - Ymyriadau Allweddol


- Parcio a Theithio Glannau Dyfrdwy;
- Cyflwyno Gorchmynion Rheoleiddio Traffig o fewn DIP i gyfyngu ar barcio ar y stryd - gwella diogelwch ar y ffyrdd wrth gynnal mynediad i fusnesau;
- Cyflwyno signalau traffig ar gylchfan yr A548 / Parkway i leihau tagfeydd ar yr oriau brig
-
- Ffordd gyswllt Bysus a Beiciau Porth y Gogledd i'r DIP;
- Gwelliannau i Orsaf Penyffordd a gorsafoedd eraill ar hyd Llinell y Gororau i hwyluso Parcio a Theithio;
- Adeiladu'r llwybr a ffeirir ar gyfer y cyswllt A494 / A55 - Y 'Llwybr Coch';
- Adeiladu'r Hwb Rheilffordd/Ffordd/Bws gan gynnwys y cyfleuster 'Parcio / Rheilffordd a Theithio' - gan ddarparu mynediad i'r DIP o'r orsaf arfaethedig Parkway Glannau Dyfrdwy ger yr A548 presennol;
- Stop Loriau a Garej Posibl yn yr un lleoliad ar yr A548;
- Cyffordd 36A Brychdyn.

Astudiaethau Trawsffiniol

Yn ddiweddar, mae Cyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer wedi comisiynu astudiaeth i ymchwilio i aliniad ffordd newydd yn lle'r Ffordd Liniaru Gorllewinol Caer flaenorol. Bydd yr Astudiaeth hon 'Coridor Twf Caer i Frychdyn' yn edrych ar gysylltu Caer â Brychdyn a'r A55 ac felly'n gwella cysylltedd rhwng Gorllewin Swydd Gaer, Caer a Gogledd Cymru, gan gynnig rhyddhad i rannau lle mae tagfeydd ar y rhwydwaith ffyrdd a darparu'r potensial i hwyluso safleoedd datblygu newydd a gwell mynediad at gyfleoedd cyflogaeth.

Darpariaeth Bresennol

Ffigur 4: Rhwydwaith ffyrdd presennol



Cysylltiadau i Awdurdodau Cymdogol

- 2.56 Mae cefnffordd yr A55 yn gyswllt strategol â gogledd Cymru ac â Chaer a thrwy'r A55 i Ogledd Orllewin Lloegr ac ardal arfordirol Gogledd Cymru sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth a busnes. Hyrwyddir materion cludiant rhanbarthol trwy'r Cyd-Gynllun Cludiant Lleol a thrwy Gynghrair Mersi Dyfrdwy a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

Amcangyfrif o'r camau cyflwyno a chyflawni

- 2.57 Mae Cynllun Glannau Dyfrdwy yn manylu ar nifer o brosiectau yn ardal yr awdurdod mewn perthynas â gwella seilwaith priffyrdd. Mae'r cynllun hwn hefyd yn manylu ar yr amserlenni disgwylidig ar gyfer cyflawni pob un o'r gwelliannau ar dymor byr h.y. llai na 5 mlynedd, tymor canolig o 5 i 15 mlynedd a thymor hir 15 i 30 mlynedd. Mae rhai o'r gwelliannau fel ffordd gyswllt Porth y Gogledd yn uniongyrchol gysylltiedig â dyraniad ar gyfer tai. Er nad yw'r rhain yn uniongyrchol gysylltiedig â chyflawni'r dyraniadau a nodwyd yn y CDLI, maent yn debygol o ddigwydd dros oes y cynllun a byddant yn cyfrannu at gyflawni gweledigaeth ac amcanion y CDLI.

Ffynonellau Ariannu

- 2.58 Mae ffynonellau cyllid yn cynnwys LIC trwy'r NTFP, datblygwyr, y cynllun cyllid cludiant lleol, grant cludiant rhanbarthol a chyfraniadau datblygwyr.

3. Ysgolion: Addysg Feithrin, Cynradd, Uwchradd a Chweched Dosbarth

Sefydliadau / Asiantaethau Arweiniol

- Cyngor Sir y Fflint
- Datblygwyr

Cyd-destun

3.1 Mae gan Gyngor Sir y Fflint gyfrifoldeb i adolygu a moderneiddio darpariaeth ysgolion, i sicrhau ei fod yn darparu'r cyfleoedd gorau posibl i ddysgwyr, fel y gallant gyflawni eu potensial llawn.

3.2 Mae angen i'r Cyngor sicrhau bod nifer ddigonol o leoedd ysgol, o'r math cywir, yn y lleoliadau cywir. Nid yw hyn yn syml gan fod nifer fawr o leoedd dros ben mewn rhai ardaloedd o'r Sir, tra nad oes gan ardaloedd eraill ddigon o leoedd i ateb y galw lleol. Mewn ardaloedd eraill, mae poblogaethau ysgolion yn cael eu cynnal gan blant a phobl ifanc o'r tu allan i'r ardal leol trwy ddewis rhieni. Mae'r angen i gynnal nifer fawr o adeiladau ysgol sy'n heneiddio a'r seilwaith ategol yn anghynladwy. Felly, mae'r Cyngor yn adolygu darpariaeth ysgolion i:

- sicrhau bod ein darpariaeth addysg o ansawdd uchel ac yn gynaliadwy;
- gwella ansawdd adeiladau a chyfleusterau ysgolion; a
- darparu'r nifer cywir o leoedd ysgol, o'r math cywir, yn y lleoliadau cywir.

3.3 Mae'r dasg hon yn cynnwys:

- rhagweld nifer y disgyblion;
- rheoli'r cyflenwad o leoedd mewn ysgolion;
- rheoli galw trwy weithdrefnau derbyn ac apeliadau;
- sicrhau bod fframwaith yn ei lle i sicrhau gwelliant trwy newid sefydliadol ysgolion.

Cysylltiadau â'r Cynllun Datblygu Unedol.

3.4 Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Adran Gynllunio sy'n ystyried Cynllunio Strategol rhaglen fuddsoddi ysgolion y Cyngor, gan gysylltu'n benodol â'r cynllun Datblygu Lleol cyn belled ag y mae'n ymarferol gwneud hynny.

Derbyniadau Ysgol

3.5 Gall rhieni fynegi dewis am unrhyw ysgol y maent yn dymuno ac mae'n rhaid i'r Cyngor geisio cwrdd â'r dewis hwnnw, os oes lleoedd ar gael yn yr ysgol. Wrth ystyried ceisiadau am leoedd ysgol, rhaid i'r Cyngor gadw at ddarpariaethau'r Cod Derbyn Ysgol statudol sy'n nodi y dylai awdurdodau derbyn dderbyn hyd at rif derbyn yr ysgol.

- 3.6 Mae'r Rhif Derbyn (AN) ar gyfer pob ysgol yn ymwneud â nifer y plant y gellir eu derbyn i bob grŵp blwyddyn yn ystod y flwyddyn ysgol. Cyfrifir yr AN ar gyfer pob ysgol gan ddefnyddio'r dull asesu capasiti yn nogfen ganllaw Llywodraeth Cymru 'Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru'
- 3.7 Ni fydd y Cyngor yn ystyried cynyddu capasiti ysgol/ ysgolion ar sail dewis rhieni. Yn hytrach, mae'r Cyngor yn cadw hyn o dan adolygiad rheolaidd yn seiliedig ar dystiolaeth o alw lleol parhaus.

Darpariaeth Bresennol

- 3.8 Mae'r tabl canlynol yn nodi nifer a dynodiad ysgolion Sir y Fflint:

Ysgolion Sir y Fflint	
Cynradd Cymunedol (Saesneg)	45
Cynradd Cymunedol (Cymraeg)	5
Cynradd a Reolir gan yr Eglwys yng Nghymru	1
Cynradd a Gynorthwyir gan yr Eglwys yng Nghymru	7
Cynradd Catholig a Gynorthwyir	5
Cynradd Sefydledig	1
Uwchradd Cymunedol (Saesneg)	9
Uwchradd Cymunedol (Cymraeg)	1
Uwchradd Catholig a Gynorthwyir	1
Ysgol Gynradd Arbennig	1
Ysgol Uwchradd Arbennig	1

Lleoedd Ysgol

- 3.9 Lleoedd ar gael a chapasiti cyffredinol ysgolion Sir y Fflint.

Lleoedd Ysgolion Cynradd		
Ysgolion Cynradd yn Sir y Fflint ym mis Medi 2018	Lleoedd Ysgol ar gael yn y dosbarth derbyn	Capasiti Ysgol Gyfan (ac eithrio Meithrin)
Cynradd Cymunedol (Saesneg)	1504	10685
Cynradd Cymunedol (Cymraeg)	133	946
Cynradd a Reolir gan yr Eglwys yng Nghymru	15	111
Cynradd a Gynorthwyir gan yr Eglwys yng Nghymru	138	973
Cynradd Catholig a Gynorthwyir	152	1081
Cynradd Sefydledig	28	201
CYFANSWM CYFFREDINOL	1970	13997

Lleoedd Ysgolion Uwchradd		
Ysgolion Uwchradd yn Sir y Fflint ym mis Medi 2018	Lleoedd Ysgol ar gael ar gychwyn yr ysgol uwchradd	Capasiti Ysgol Gyfan (gan gynnwys 6ed Dosbarth)
Uwchradd Cymunedol (Saesneg)	1589	9038
Uwchradd Cymunedol (Cymraeg)	120	711
Uwchradd Catholig a Gynorthwyr	166	969
CYFANSWM CYFFREDINOL	1875	10718

Ysgolion Gorlawn

- 3.10 Mae gan y Cyngor (fel Cyngorau eraill) nifer o ysgolion poblogaidd, y mae mynegiadau o ddewis rhieni yn uwch na nifer y lleoedd sydd ar gael. Mewn achosion o'r fath defnyddir y meini prawf polisi Derbyn sy'n arwain at barhau i fodloni mwyafrif helaeth dewis y rhieni.

Lleoedd heb eu llenwi mewn Ysgolion

- 3.11 Argymhellodd adolygiad cenedlaethol i gostau gweinyddu addysg yng Nghymru y dylai Awdurdodau Lleol geisio cadw dim mwy na 10% o leoedd dros ben yn gyffredinol yn eu portffolio ysgolion a derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn.

Lleoedd heb eu llenwi mewn ysgolion cynradd (Medi 2018)	
Ysgolion cynradd	Lleoedd Gwag ym Medi 2018
Cynradd Cymunedol (Saesneg)	1012
Cynradd Cymunedol (Cymraeg)	213
Cynradd a Reolir gan yr Eglwys yng Nghymru	70
Cynradd a Gynorthwyr gan yr Eglwys yng Nghymru	141
Cynradd Catholig a Gynorthwyr	257
Cynradd Sefydledig	9
CYFANSWM CYFFREDINOL	1702

Lleoedd heb eu llenwi mewn ysgolion uwchradd (Medi 2018)	
Ysgolion Uwchradd yn Sir y Fflint ar dderbyniadau mis Medi 2018.	Lleoedd Gwag ym Medi 2018
Uwchradd Cymunedol (Saesneg)	969
Uwchradd Cymunedol (Cymraeg)	174
Uwchradd Catholig a Gynorthwyr	261

CYFANSWM CYFFREDINOL

1404

Cysylltiadau i Awdurdodau Cymdogol

- 3.12 Nid yw cod Derbyn ysgolion Llywodraeth Cymru yn cydnabod Ffiniau Sirol. Felly, mae'r Cyngor yn rhannu gwybodaeth ag Awdurdodau cyfagos i gynorthwyo gyda chynllunio lleoedd ysgol. Beth bynnag, ni all ALI neilltuo lleoedd ysgol, gan eu bod yn cael eu neilltuo ar sail Cod Derbyn yr Ysgol a pholisi lleol.

Materion Allweddol

- 3.13 Bydd y Cyngor yn ceisio caffael cyfraniadau yn unol â gofynion nodiadau canllaw cynllunio lleol cyfredol. Bydd unrhyw ddiffyg mewn lleoedd ysgol sy'n deillio o ddatblygiadau tai presennol yn dod o gyllid y Cyngor neu ffynonellau cyllid eraill. Byddai ceisiadau am gyfraniad yn seiliedig ar amgylchiadau hysbys / data a oedd ar gael ar adeg y datblygiadau. Rhoddir ystyriaeth hefyd i ddatblygwyr sy'n adeiladu ysgolion i safonau ansawdd a pherfformiad y cytunwyd arnynt.
- 3.14 At ddibenion y Cynllun Seilwaith, mae'r cynnyrch disgyblion a gofynion sy'n deillio o safleoedd maes glas a thir llwyd yn cael eu cyfrif ar sail tai yn hytrach na fflatiau. At ddibenion y Cynllun Seilwaith, bydd cynnyrch disgyblion a gofynion sy'n codi o safleoedd maes glas a thir llwyd yn cael eu hystyried naill ai ar sail gwybodaeth hysbys fel manylion dyluniad y safle neu os nad oes gwybodaeth fanwl ar gael, bydd cynnyrch disgyblion yn cael ei ystyried yn seiliedig ar dai yn hytrach na fflatiau.
- 3.15 Lle nad yw graddfa'r datblygiadau yn ddigon mawr i gefnogi adeiladu ysgolion cynradd neu uwchradd newydd, bydd angen rhoi ystyriaeth ofalus i amseriad a chyfuno cyfraniadau o ddatblygiadau lluosog, gan gynnwys darparu unrhyw dir ar gyfer adeiladu. Bydd angen ystyried cynigion datblygu (yn enwedig ar gyfer y Safleoedd Strategol a nodwyd yn y CDLI) fesul safle yn ystod cyfnod y cynllun er mwyn ystyried (1) unrhyw newidiadau i'r ddarpariaeth leol ar yr adeg cyn ceisiadau a (2) unrhyw gapasiti presennol mewn ysgolion yn yr ardal sy'n ymgorffori'r safleoedd datblygu arfaethedig.
- 3.16 Mae'r Cyfraniadau Datblygwr i Ysgolion yn caniatáu i gostau gael eu cyfrif yn seiliedig ar y disgyblion sy'n debygol o gael eu cynhyrchu o fewn, Ysgolion Cynradd, Uwchradd ac Ôl 16 gan ddefnyddio'r ffactorau llusgi cyhoeddedig. Mae methodoleg amcanestyniadau niferoedd disgyblion yn cyd-fynd ag awdurdodau eraill ledled y rhanbarth ac yn cael eu cwblhau ddwywaith y flwyddyn ac yn gysylltiedig â ffurflenni data ysgolion, sef ffurflenni ystadegol PLASC mis Ionawr a Medi.
- 3.17 Cynhelir yr asesiadau capasiti gan ddefnyddio templed Llywodraeth Cymru ar gyfer Capasiti Ysgolion yng Nghymru. Mae'r broses hon hefyd yn cynhyrchu Rhif Derbyniadau ysgolion, sydd wedi'i gysylltu'n uniongyrchol â chapasiti'r ysgol.

Cynnyrch disgyblion posib o ddatblygiadau Tai

3.18 Bydd y Cyngor yn ceisio cyfraniadau tuag at gost cyfleusterau ychwanegol neu gyfleusterau gwella yn unol â'r nodyn canllaw (Nodyn CCA Rhif 23) sy'n ymwneud â Chyfraniadau Datblygwyr i Addysg. Defnyddir y fformiwla ganlynol sy'n seiliedig ar ymchwil ranbarthol i gael y cynnyrch disgyblion posibl o ddatblygiadau tai newydd ac wedi hynny i sefydlu cyfraniadau posibl gan ddatblygwyr:

A. Nifer yr unedau annedd cymwys yn y datblygiad (5 neu fwy neu dros 0.2 hectar)

B. Nifer y plant oed ysgol sy'n debygol o gael eu cynhyrchu gan bob uned annedd:

- 0.24 fesul disgybl oed cynradd
- 0.174 fesul disgybl oed uwchradd

(e.e. 10 annedd ar gyfer disgyblion oed cynradd x 0.24 = 2.4 disgybl a gynhyrchwyd o'r datblygiad)

C. Cost gyfartalog darparu lle ysgol.

Bydd y Cyngor yn adolygu ei brosesau pe bai CIL yn cael ei weithredu yn Sir y Fflint ar ôl mabwysiadu'r CDLI.

Gofynion Seilwaith

Cynnydd y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion

3.19 Mae'r rhaglen foderneiddio ysgolion yn Sir y Fflint wedi bod ar waith ers 2010. Ers hynny, mae'r Cyngor wedi ymgymryd â rhaglen fawr o gynigion newid sefydliadol i ysgolion. Mae'r rhain wedi cynnwys cau un ysgol feithrin, tair ysgol gynradd, un ysgol uwchradd, datblygu pedwar trefniant ffederal ar draws y sector cynradd ac uwchradd, rhesymoli darpariaeth ôl-16 yng ngogledd y Sir gan arwain at drefniant partneriaeth gyda Choleg Cambria, ymestyn y ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg gynradd, adeiladu dwy ysgol gynradd newydd a champws dysgu 3-16 arobryn a phrosiectau ailfodelu mawr eraill.

3.20 Disgwylir i adeilad ysgol gynradd arall gael ei gwblhau ym mis Gorffennaf 2019, sy'n cwblhau rhaglen Band A ysgolion yr 21ain Ganrif, gan ddod â chyfanswm y cyllid ar gyfer y gyfran gychwynnol hon i £64.2m.

3.21 Nid oes gan y Cyngor unrhyw ysgolion babanod ac iau ar wahân mwyach. Er bod dwy ysgol yn parhau ar safleoedd rhanedig. Mewn un ardal mae ysgol newydd yn cael ei hadeiladu sy'n mynd i'r afael â'r mater safle rhanedig a bydd wedi'i gwblhau erbyn mis Gorffennaf 2019.

Ffynonellau Ariannu

Amcangyfrif o'r camau cyflwyno a chyflawni

Buddsoddiad cyfalaf mewn ffynonellau cyllid Ysgolion

- 3.22 Gall y Cyngor adolygu capasiti'r ysgolion sydd wedi'u cynnwys yn ei raglen fuddsoddi. Mae Rhaglen Buddsoddi Cyfalaf Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru yn fuddsoddiad strategol tymor hir yn yr ystâd addysgol ledled Cymru. Mae'n gydweithrediad unigryw rhwng Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), awdurdodau lleol, colegau ac esgobaethau.
- 3.23 Ariennir y Rhaglen gan LIC ac ALI yn seiliedig ar gyfraddau ymyrraeth y cytunwyd arnynt ac mae wedi'i nodi fel a ganlyn:

Band A - 2014-2019

Band B - 2019- 2024

Band C - 2024 -2029 (heb ei gadarnhau gan LIC)

Band D - 2029- 2034 (heb ei gadarnhau gan LIC)

Rhaglen a Ariennir gan y Cyngor

Ariennir rhaglen Gyfalaf y Cyngor 100% gan y Cyngor ac mae'n ategu rhaglen fuddsoddi ysgolion yr 21ain Ganrif.

Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif – Band B (2019-2025)

- 3.24 Cyflwynwyd Rhaglen Amlinellol Strategol (SOP) y Cyngor a'i chymeradwyo gan LIC. Cyfanswm amlen ariannu Band B y gofynnodd y Cyngor amdani fel yr amlinellwyd yn ei gyflwyniad SOP i LIC oedd £85,420,000.00, gan gynnwys mynegiant o ddiddordeb bod yna un prosiect (£25m) a allai fod yn addas ar gyfer Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MIM). Mae rhaglen ysgolion yr 21ain Ganrif yn ymddrin â phortffolio ysgolion Sir y Fflint waeth beth yw eu dynodiad.
- 3.25 Roedd y SOP gwreiddiol yn cynnwys nifer o brosiectau / meysydd arfaethedig, mae'r rhain yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet (gallai fod newidiadau wrth i'r rhaglen esblygu) a chymeradwyaeth proses achos busnes LIC cyn rhyddhau buddsoddiad.
- 3.26 Mae'r SOP yn gysylltiedig â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor, (WESP). Mae rhaglen Band B hefyd yn canolbwyntio ar ysgolion yn y sector Cyfrwng Cymraeg, gan gysylltu ag awydd y Cyngor i sicrhau bod cyfrwng Cymraeg yn cael blaenoriaeth ac yn cysylltu â'r Strategaeth Gymraeg Genedlaethol.
- 3.27 Yn ogystal, mae ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol yn cael eu cynnal ar y cyd gan y Cyngor Sir a naill ai'r Eglwys yng Nghymru neu'r Eglwys Babyddol. Mae gan ysgolion a gynorthwyir hefyd fynediad at ffrydiau cyllid cyfalaf ar wahân yn uniongyrchol trwy Lywodraeth Cymru. Mae'r Cyngor yn parhau i weithio mewn

partneriaeth â'r Awdurdodau Esgobaethol i sicrhau bod ysgolion a gynorthwyr mewn lleoliad priodol â gallu digonol ac yn addas at y diben.

- 3.28 Mae Nodyn Canllaw Cynllunio Atodol y Cyngor (Nodyn CCA Rhif 23) yn nodi'r amgylchiadau lle mae cyfraniadau datblygwyr at ddarpariaeth Addysg yn angenrheidiol. Bydd y Cyngor yn ceisio caffael cyfraniadau pan fydd y sbardunau gofynnol fel y'u nodwyd yn y nodyn canllaw yn cael eu cwrdd.
- 3.29 Er bod cyfraniadau A106 yn bwysig ac yn cynorthwyo i fynd i'r afael â'r diffygion mewn llety addysgu, cyfleusterau ac adnoddau cysylltiedig. Mewn rhai achosion, fodd bynnag, efallai na fyddant yn ddigonol i fynd i'r afael â'r materion llety ehangach mewn ysgolion penodol sy'n deillio o ddatblygiad lleol. Mewn achosion o'r fath byddai angen i'r Cyngor adolygu a oes angen unrhyw arian ychwanegol a'i alinio â ffynonellau cyllid ychwanegol.

Cyfle i rannu cyfleusterau ysgol

- 3.30 Bydd y Cyngor yn chwilio am 'gyfleoedd' i rannu safleoedd / adeiladau â gwasanaethau eraill lle mae cyllid ychwanegol ar gael a lle mae'n briodol ystyried cyfleoedd. Gall hyn gynnwys:

- Llyfrgelloedd
- Cyfleusterau cymunedol
- Hamdden
- Addysg Oedolion/ Coleg
- Gofal Plant Integredig
- Mentrau ysgolion coedwig
- Gofal lechyd a neu gyfleusterau Heddlu Lleol

4. Iechyd



Ffigur 4: Ardaloedd clwstwr ar gyfer Sir y Fflint yng nghyd-destun ardal ehangach Gogledd Cymru.

Sefydliadau / Asiantaethau Arweiniol

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (Bwrdd Iechyd)

Cyd-destun

- 4.1 Yn nhermau'r boblogaeth, Sir y Fflint yw'r sir fwyaf poblog yng Ngogledd Cymru. Mae gan Sir y Fflint boblogaeth gymharol ifanc, gyda thua 17% o'r boblogaeth yn 15 oed ac yn iau. Fodd bynnag, mae 20% o'r preswylwyr yn 65 oed a hŷn a 2% yn 85 oed neu'n hŷn; erbyn 2030, rhagwelir y bydd cyfanswm y boblogaeth yn codi i 155,840, gyda 26% yn 65 oed a hŷn a 5% yn 85 oed neu'n hŷn.
- 4.2 Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (Bwrdd Iechyd) yn gyfrifol am hyrwyddo iechyd a lles y boblogaeth a darparu neu gomisiynu gwasanaethau gofal iechyd i ddiwallu anghenion y boblogaeth. Mae gan Sir y Fflint broffil cyffredinol o iechyd sy'n well na chyfartaledd Cymru; fodd bynnag, mae yna lawer o ardaloedd lle mae preswylwyr yn dioddef iechyd gwaeth. Yn yr un modd â chymunedau tebyg yng Ngogledd Cymru, mae yna boblogaeth hŷn sy'n tyfu a fydd angen gofal a chefnogaeth gan wasanaethau iechyd yn y dyfodol ynghyd â grwpiau eraill yn y gymuned. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn Iechyd Cyhoeddus Cymru - Sir y Fflint [Public Health Wales - Flintshire](#)
- 4.3 Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yw'r sefydliad iechyd mwyaf yng Nghymru, sy'n darparu ystod lawn o wasanaethau sylfaenol, cymunedol, iechyd meddwl ac ysbytai aciwt ar gyfer poblogaeth o tua 678,000 o bobl ar draws chwe

sir Gogledd Cymru (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, a Wrecsam). Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn gyfrifol am sicrhau mynediad at wasanaethau gofal sylfaenol y GIG gan gynnwys Meddygon Teulu, Fferyllwyr Cymunedol, Deintyddion ac Optometryddion.

Darpariaeth Bresennol

- 4.4 Mae'r Bwrdd Iechyd yn rheoli tri phrif ysbyty ynghyd â rhwydwaith o ysbytai cymunedol, canolfannau iechyd a lles, clinigau, unedau iechyd meddwl a swyddfeydd timau cymunedol. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cydlynu gwaith 109 o feddygfeydd teulu a gwasanaethau'r GIG a ddarperir gan ddeintyddion, optometryddion a fferyllwyr yng Ngogledd Cymru.
- 4.5 Cefnogir y boblogaeth yn Sir y Fflint gan wasanaethau ysbyty a ddarperir yn Ysbyty Glan Clwyd (Bodelwyddan, Sir Ddinbych) ac Ysbyty Wrecsam Maelor, a hefyd gwasanaethau a gomisiynwyd gan Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Iarlls Caer.
- 4.6 Mae Gwasanaethau Gofal Sylfaenol a Chymunedol o fewn Cyngor Sir y Fflint yn cynnwys:
- Ysbytai cymunedol yn Nhreffynnon, Glannau Dyfrdwy a'r Wyddgrug
 - 26 Meddygfa Teulu (gan gynnwys 6 meddygfa gangen), 17 adeilad deintyddol y GIG (meddygfeydd ar wahân), 16 adeilad optometreg a 30 siop fferyllfa.
- 4.7 Mae tri thîm rheoli Ardal o fewn y Bwrdd Iechyd, gyda gwasanaethau sylfaenol a chymunedol ar gyfer Sir y Fflint yn cael eu rheoli yn ardal y Dwyrain. Rhennir ardal y sir yn 3 ardal arall ar gyfer darparu gwasanaethau sylfaenol a chymunedol: Gogledd Orllewin Sir y Fflint (sy'n cynnwys Treffynnon a'r Fflint), Gogledd Ddwyrain Sir y Fflint (Cei Connah, Shotton, Queensferry a Brychdyn) a De Sir y Fflint (sy'n cynnwys yr Wyddgrug, Bwcle a'r ardaloedd cyfagos).

Cysylltiadau i Awdurdodau Cymdogol

- 4.8 Mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu gofal iechyd sylfaenol, cymunedol ac eilaidd i bobl sy'n byw yng Ngogledd Cymru. Mae hefyd yn gwasanaethu poblogaeth ehangach gan gynnwys preswylwyr rhannau o Swydd Gaer sydd wedi cofrestru gyda meddygfeydd Gogledd Cymru neu'n defnyddio rhai o'r gwasanaethau ysbyty yn yr ardal.

Materion Allweddol

Strategaeth y dyfodol ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal iechyd

- 4.9 Nod y Bwrdd Iechyd yw dod yn fwy o wasanaeth "lles" yn hytrach na gwasanaeth "salwch" a gweithio gydag unigolion, teuluoedd a gofalwyr a chymunedau ynghyd â phartneriaid mewn gwasanaethau cyhoeddus a'r trydydd sector i gynllunio ar gyfer anghenion pobl sy'n byw yng Ngogledd Cymru yn y dyfodol. Bydd y Bwrdd yn gweithio mewn partneriaeth i gefnogi pawb i gadw'n heini ac yn iach trwy gydol oes. Yn benodol, bydd y Bwrdd yn gweithio gyda phartneriaid yn y Byrddau

Gwasanaethau Cyhoeddus i ddatblygu a chyflawni cynlluniau llesiant lleol sy'n mynd i'r afael â phedwar parth llesiant - economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol.

- 4.10 Ym mis Mawrth 2018, cymeradwyodd y Bwrdd Iechyd ei strategaeth hirdymor, Byw'n Iach, Aros yn Iach, gan nodi'r weledigaeth ar gyfer iechyd, lles a gofal iechyd dros y deng mlynedd nesaf. Ym mis Mawrth 2019 cymeradwyodd y Bwrdd ein strategaeth ystadau sy'n ymateb i LHSW ac yn darparu'r weledigaeth a'r fframwaith ar gyfer datblygu a defnyddio ein hystâd yn y dyfodol a sut y byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau'r buddion mwyaf posibl i'n portffolios eiddo ar y cyd.
- 4.11 Ar hyn o bryd mae gan y Bwrdd Iechyd un o'r portffolios eiddo mwyaf yng Nghymru sy'n cynnwys 137 eiddo yn amrywio mewn oedran o Ysbyty Dinbych a sefydlwyd ym 1813 i Ganolfan Iechyd a Lles y Fflint a agorwyd yn 2018. Mae'r ystâd bresennol yn gosod heriau sylweddol o ran ei oedran, cyflwr, gwytnwch ac addasrwydd i gefnogi gofal modern i'r graddau nad yw'n hyfyw yn y tymor hir ac na all gefnogi'r weledigaeth gofal yn y dyfodol a ddisgrifir yn Byw'n Iach, Aros yn Iach. Felly mae'n rhaid i'n hystâd newid i ddiwallu anghenion newidiol ein poblogaeth.
- 4.12 Mae'r blaenoriaethau a nodwyd yn y rhaglenni strategaeth yn gyson â'r dull o sicrhau lles a gwytnwch cymunedol. O fewn hyn, mae darparu gofal a chymorth yn agos at adref i gynorthwyo pobl i aros yn annibynnol yn elfen bwysig. Mae'n bwysig bod y Bwrdd Iechyd yn gweithio'n agos gyda Chyngor Sir y Fflint i ddatblygu cynlluniau twf arfaethedig sy'n ystyried y gallu a'r seilwaith sydd eu hangen ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol, cymunedol ac ysbytai gwydn.
- 4.13 Y dogfennau allweddol sy'n gwthio'r modelu a darparu gwasanaeth yw:
- Cymru Iachach - Ein Cynllun Tymor Hir ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (LIC, 2018)
 - Strategaeth Byw'n Iach, Aros yn Iach (cymeradwywyd Mawrth 2018)
 - Rhagolwg tair blynedd BIPBC (cymeradwywyd Mawrth 2019)
 - Y Strategaeth Ystadau (cymeradwywyd Mawrth 2019)
- 4.14 Mae Byw'n Iach, Aros yn Iach yn darparu sylfaen y fframwaith strategol ar gyfer ein hystâd yn y dyfodol a fydd wedi'i gynllunio i gefnogi gwasanaethau iechyd a lles, sylfaenol a chymunedol trwy rwydwaith o ganolfannau llesiant. Bydd y rhwydwaith hwn yn cael ei gefnogi gan dri champws ysbyty aciwt sy'n darparu gofal aciwt ac arbenigol ynghyd â gwasanaethau cymorth allweddol (clinigol ac anghlinigol).
- 4.15 Bydd maint a chynhwysedd ystâd y dyfodol yn adlewyrchu'r newid mewn gofal yn agosach at y cartref a modelau gweithio newydd. Dyluniwyd ystâd y dyfodol i

leihau ein heffaith ar yr amgylchedd, i fod yn gynaliadwy ac i gefnogi lles economaidd, cymdeithasol a diwylliannol ehangach Gogledd Cymru.

- 4.16 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i weithio gyda sefydliadau partner, gan gynnwys awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol, i ddatblygu atebion integredig sy'n gwneud y defnydd gorau o'n hasedau eiddo ar y cyd waeth pwy sy'n berchen arnynt.
- 4.17 Yn y cyd-destun hwn mae'r Bwrdd yn ceisio gweithio ar y cyd â phroses y Cynllun Datblygu Lleol i sicrhau bod cynlluniau wedi'u halinio'n strategol ac yn cydnabod cyfleoedd i weithio gyda'n gilydd i wella lles, datblygu cymunedau cydnerth a chymryd cyfleoedd i weithio ar y cyd i gefnogi hyn.

Cyfleusterau Gofal Sylfaenol

- 4.18 Bydd y cyfleusterau hyn yn cefnogi ehangu ac adnewyddu gofal sylfaenol yng nghalon y gymuned gan ganolbwyntio ar wasanaethau meddygfeydd teulu, ond gyda chyfleoedd i wasanaethau gofal sylfaenol eraill fel deintyddiaeth a fferyllfa gydleoeli ar yr un safle.
- 4.19 Lle bo hynny'n bosibl, bydd y Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda meddygfeydd ar ddatblygu adeiladau newydd a gwella eiddo presennol. Bydd yn annog meddygfeydd mewn ardaloedd lleol i weithio gyda'i gilydd (gan gynnwys achub ar y cyfle i gydleoeli â meddygfeydd eraill mewn adeiladau newydd). Bydd hyn yn galluogi meddygfeydd i gynnig ystod estynedig a mwy hyblyg o wasanaethau i'w cleifion.
- 4.20 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd rheolaeth uniongyrchol ar redeg rhai meddygfeydd teulu yn y Sir a lle bo hynny'n briodol, bydd yn parhau i reoli meddygfeydd ychwanegol yn uniongyrchol yn y dyfodol.
- 4.21 Mae rhai o'r adeiladau meddygon teulu yn Sir y Fflint yn gweithio ar faint eu rhestr cleifion neu'n agos atynt ac yn aml nid oes capasiti digonol yn yr adeilad presennol i ddarparu ar gyfer lefel a dosbarthiad y twf poblogaeth a ragamcanir yn y CDLI i'w archwilio gan y cyhoedd.
- 4.22 Mae'r Bwrdd Iechyd yn ceisio sicrhau bod safleoedd ar gyfer cyfleusterau newydd yn adlewyrchu dosbarthiad gofodol yr angen, pwysigrwydd hygyrchedd ac yn creu cyfleoedd i wahanol ddarparwyr gwasanaeth rannu cyfleusterau.

Gofynion Seilwaith

Cyfleusterau Gofal Sylfaenol:

- 4.23 Yn aml nid oes llawer o le i ehangu o fewn adeiladau meddygon teulu presennol ond gall hyn fod yn opsiwn o hyd i rai meddygfeydd. Yn Sir y Fflint, mae nifer o

gyfleusterau gofal sylfaenol newydd wedi'u datblygu dros y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys, er enghraifft, Bwcle, Cei Connah, a Chanolfan Iechyd a Lles y Fflint (agorwyd yn 2018.) Mae angen i ddatblygiad yr ystâd gofal sylfaenol adlewyrchu gweledigaeth Byw'n Iach, Aros yn Iach a hwyluso'r pwyslais ar hunanofal a gofal yn agosach at y cartref a'r modelau gweithio integredig y bydd eu hangen i'w gefnogi. Bydd adeiladau pwrpasol wedi'u hadeiladu a'u gwella hefyd yn bwysig iawn wrth hyrwyddo Gogledd Cymru fel amgylchedd deniadol i ddilyn gyrfa mewn meddygaeth teulu ynddo.

- 4.24 Yn Sir y Fflint, bydd ffocws ar ardaloedd sy'n gyson â'r prif ardaloedd gwasanaeth a nodwyd yn y strategaeth a ffeirir gan CDLI Sir y Fflint (gan gynnwys y Fflint, Treffynnon, Cei Connah, Glannau Dyfrdwy, Shotton a'r Wyddgrug) wrth sicrhau bod anghenion pobl sy'n byw yn yr ardaloedd cyfagos hefyd yn cael eu cwrdd. Mae'r dadansoddiad cyfredol o'r galw mewn perthynas â'r ystâd bresennol, ei hoedran, ei gyflwr a'i addasrwydd swyddogaethol yn dangos bod angen buddsoddiad datblygu mewn nifer o ardaloedd, gan gynnwys Queensferry a Shotton.
- 4.25 Mae goblygiadau posibl i ddarparwyr gwasanaethau iechyd ar ddwy ochr y ffin o ganlyniad i leoliad y ddwy Safle Strategol ym Mhorth y Gogledd a Warren Hall. Mae twf poblogaeth sylweddol yn yr ardaloedd hyn yn debygol o gynyddu'r galw ar wasanaethau gofal sylfaenol ac eilaidd a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd, Grŵp Comisiynu Clinigol Gorllewin Swydd Gaer ac Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Ysbyty Iarlles Caer.
- 4.26 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio tuag at gymhareb meddyg teulu a chleifion o 1: 2,000, ynghyd â thîm llawn o weithwyr proffesiynol gofal sylfaenol gan gynnwys nyrso, fferylliaeth, therapi a disgyblaethau eraill, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector. O'i gymhwyso i lefel y twf yn y boblogaeth a nodwyd yn y CDLI i'w archwilio gan y cyhoedd, byddai hyn yn cyfateb i'r angen am 6-9 Meddyg Teulu ychwanegol.
- 4.27 Byddai gweithredu cyfleusterau newydd yn gynnar lle rhagwelir twf sylweddol o fudd i'r cymunedau presennol ac yn sicrhau bod digon o gapasiti i gynnal y boblogaeth leol.
- 4.28 Ar gyfer twf sy'n gysylltiedig â datblygu Safleoedd Strategol, bydd angen graddoli'r ddarpariaeth yn ofalus, er mwyn sicrhau cydbwysedd rhwng cael màs critigol o'r boblogaeth i sicrhau hyfywedd cyfleusterau newydd a sicrhau nad yw preswylwyr newydd yn cael eu gadael heb gyfleusterau ar gyfer cyfnod anghymesur o amser.

Ffynonellau Ariannu

- 4.29 Pan gânt eu hariannu gan ddyraniad cyfalaf cyhoeddus, mae cost cyfalaf Cyfleusterau Gofal Sylfaenol yn ddarostyngedig i broses achos busnes a reolir trwy Grŵp Gwella Ystadau'r Bwrdd Iechyd. Mae hyn yn rhan o gyflwyniad cyfalaf BIPBC i Lywodraeth Cymru o dan y rhaglen ar gyfer gwella'r gwasanaeth iechyd.

Mae'r rhaglen gyfalaf yn ddarostyngedig i gyfyngiad yn ôl argaeledd a blaenoriaethu ar draws y rhaglen Cymru gyfan.

- 4.30 Yng nghyd-destun y Cynllun Datblygu Lleol i'w archwilio gan y cyhoedd mae potensial i ddarparu tir a / neu ddatblygu Cyfleusterau Gofal Sylfaenol i fod yn rhan o uwchgynllunio Safleoedd Strategol.
- 4.31 Bydd y Bwrdd Iechyd yn ceisio cyfraniadau datblygwyr o dan adran 106 ac yn unol â chanllawiau cynllunio lleol lle mae angen seilwaith er mwyn sicrhau seilwaith digonol ar gyfer y twf yn y boblogaeth. Asesir gofynion cyfalaf ar sail Nodiadau Adeiladu Iechyd Cymru, gan gynnwys WHBN 36 - Adeilad practis meddygol cyffredinol yng Nghymru.

5. Rheolaeth Amgylcheddol Risg Llifogydd a Rheoli Dŵr Wyneb

Sefydliadau / Asiantaethau Arweiniol

- Cyngor Sir y Fflint (Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol)
- Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) - Amddiffynfeydd afonol
- Dŵr Cymru - rhwydwaith carthffosydd

Sefydliadau / Asiantaethau Arweiniol

- Mae Cyngor Sir y Fflint - fel Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol, yn gyfrifol am arwain wrth reoli risg llifogydd o'r holl ffynonellau lleol, gan gynnwys dŵr wyneb, dŵr daear a chysiau dŵr cyffredin. Yn ogystal â'r Corff Cymeradwyo SuDS (SAB) mae'r Cyngor yn gyfrifol am gymeradwyo cynlluniau draenio dŵr wyneb a mabwysiadu cynlluniau cymeradwy sy'n gwasanaethu mwy nag un eiddo.
- Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) - yn gyfrifol am reoli risg llifogydd o brif afonydd a'r môr, ac mae ganddo rôl trosolwg strategol dros yr holl reolaeth risg llifogydd ac erydiad arfordirol
- Dŵr Cymru - y cwmni cyflenwi dŵr a thrin carthffosiaeth sy'n gwasanaethu ardal Sir y Fflint sy'n gyfrifol am risg llifogydd o'r carthffosydd cyhoeddus a'r rhwydweithiau cyflenwi dŵr.

Cyd-destun

5.1 Er bod y cynllun wedi mabwysiadu dull o ddyrannu safleoedd i ffwrdd o ardaloedd a nodwyd ar hyn o bryd fel bod mewn perygl o lifogydd, mae'n anochel y bydd ein dealltwriaeth o risg llifogydd yn esblygu dros amser, yn enwedig wrth ystyried y risg uwch o lifogydd i'r dyfodol sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd. Gall y risgiau sy'n gysylltiedig â llifogydd dŵr wyneb a dŵr ffo effeithio ar ddatblygiadau lle nad yw risgiau llanw neu afonol eraill yn amlwg. Heb reolaeth gynaliadwy o ddŵr wyneb a gynhyrchir o ddatblygiad newydd a phresennol, bydd y risg hon yn cynyddu.

5.2 Fel yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol, mae Cyngor Sir y Fflint wedi cynhyrchu Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd Lleol (LFRMS) sy'n nodi'r dull o reoli risg llifogydd yn y sir.

5.3 Cydnabyddir y ffynonellau canlynol o beryglon llifogydd yn y sir ac efallai y bydd angen eu hystyried yng nghyd-destun datblygiadau a gynllunir yn y dyfodol.

- Mae llifogydd llanwol neu arfordirol yn digwydd pan na all amddiffynfeydd arfordirol wrthsefyll y llanw uchel arferol a ragwelir neu pan fydd llanw uchel

yn cyfuno ag ymchwydd storm gan arwain at lifogydd o dir sydd fel arfer yn dir sych, yn dir isel gan ddŵr y môr. Mae gan Sir y Fflint oddeutu 30km o forlin ar hyd aber Dyfrdwy gyda'r tir isel cyfagos mewn perygl o lifogydd llanwol. Mae'r risg hon yn cael ei rheoli i raddau amrywiol gan amddiffynfeydd arfordirol sy'n amrywio o systemau naturiol fel twyni a morfa heli i amddiffynfeydd o waith dyn fel argloddiau daear mawr a morgloddiau.

Gall canlyniadau llifogydd llanwol fod yn arbennig o arwyddocaol ac mae'n tueddu i gario'r risg fwyaf i fywyd a difrod i eiddo a seilwaith. Gall digwyddiadau llifogydd fod yn fwy o ran maint na digwyddiadau llifogydd afonol neu ddŵr wyneb gyda mwy o botensial ar gyfer dŵr llifogydd dyfnach a chyflymach, yn enwedig wrth ystyried torri amddiffynfa arfordirol uwch.

- Mae llifogydd afonol yn disgrifio llifogydd o unrhyw gwrs dŵr, boed yn 'brif afon' fwy fel Afon Dyfrdwy neu Afon Alyn neu afonydd, nentydd a ffrydiau llai, dienw yn aml. Gellir dadlau mai risg llifogydd afonol yw'r ffynhonnell risg llifogydd a gydnabyddir amlaf ac sy'n cael ei deall orau. Mae'n ddigwyddiad naturiol ac fel rheol mae'n digwydd pan na all capasiti cwrs dŵr gynnwys cyfaint y dŵr sy'n dod i mewn iddo, a dŵr yn gorlifo ei glannau. Gall y dŵr llifogydd canlyniadol fod yn ddwfn a llifo'n gyflym a gall beri gorlifiad eang ar y gorlifdir. Efallai y bydd hefyd yn cario malurion, a all gynyddu'r difrod.

Yn gyffredinol, effaith gyfyngedig sydd gan lifogydd afonol sy'n digwydd yn yr amgylchedd naturiol. Mae'r risg a'r canlyniadau'n cynyddu lle mae datblygiad wedi digwydd, boed hwn yn ddatblygiad amhriodol o fewn gorlifdir, neu o gyfyngu sianel naturiol yr afon a thrwy hynny'n lleihau capasiti a chynyddu tebygolrwydd ac amllder llifogydd. Mae hon yn broblem benodol lle mae cyrsiau dŵr wedi'u haddasu neu eu culhau heb ystyried rhwystr na methiant. Gall effeithiau llifogydd afonol fod hyd yn oed yn fwy arwyddocaol a chynyddu'r risg i fywyd pe bai amddiffynfa llifogydd, a adeiladwyd i gynnwys llifoedd afon uchel, yn methu neu'n torri heb fawr o rybudd.

- Mae llifogydd dŵr wyneb yn digwydd yn dilyn glawiad dwys yn lleol pan fydd cyfradd y glawiad yn uwch na'r gyfradd y gall dŵr ymdreiddio i'r ddaear neu'r pridd ac yn llifo dros y tir ar yr wyneb. Yn y cyd-destun trefol mae fel arfer yn golygu bod cyfraddau dŵr ffo wyneb yn fwy na chynhwysedd systemau draenio i gael gwared arno. Oherwydd ei natur leol, mae'n aml yn anodd iawn rhagweld llifogydd dŵr wyneb yn gywir, gydag ychydig iawn o amser ar gael ymlaen llaw ar gyfer cyhoeddi rhybuddion. Gall llifogydd dŵr wyneb arwain at ddŵr sy'n llifo'n gyflym yn lleol a gall achosi aflonyddwch i rwydweithiau teithio, llifogydd mewn tir ac eiddo, a gall beri risg i fywyd. Nodir llifogydd dŵr wyneb fel ffynhonnell llifogydd sylweddol yn y sir.

Darpariaeth Bresennol

5.4 Mae nifer o gynlluniau ac amddiffynfeydd rhag llifogydd sylweddol ar waith i reoli llifogydd sy'n gysylltiedig ag Aber Dyfrdwy a chyrsiau dŵr mwy 'prif afonydd' fel Afon Alyn. Rheolir y rhain yn bennaf gan CNC. Mae nifer o gynlluniau a strwythurau llai ar waith ar draws rhwydwaith y sir o gyrsiau dŵr cyffredin. Mae'r rhai sy'n eiddo i Gyngor Sir y Fflint yn cael eu rheoli a'u cynnal yn bennaf gan yr Adran Strydwedd gyda llawer o rai eraill yn dod o dan gyfrifoldeb perchnogion glannau afon preifat. Fel Awdurdod Priffyrdd, mae'r cyngor hefyd yn rheoli ac yn cynnal rhwydwaith mawr o seilwaith draenio priffyrdd sydd yn chwarae rhan sylweddol wrth reoli llifogydd dŵr wyneb ledled y sir.

Cysylltiadau i Awdurdodau Cymdogol

5.5 Nid yw risg llifogydd, yn enwedig llifogydd llanwol ac afonol, yn cael ei ddiffinio gan ffiniau gwleidyddol. Mae Cyngor Sir y Fflint yn gweithio gydag awdurdodau lleol cyfagos, yn ogystal â Gwasanaeth Cynllunio Rhag Argyfwng Cynghorau Gogledd Cymru (NWCEPS), CNC a darparwyr cyfleustodau lleol i ddarparu gwasanaethau rheoli risg llifogydd.

Materion Allweddol

5.6 Mae rheoli dŵr wyneb a gynhyrchir o arwynebau anhydraidd presennol a newydd yn hanfodol i sicrhau nad oes dim cynnydd mewn risg llifogydd i bobl ac eiddo yn y Sir. Mae'n hanfodol bod pob datblygiad newydd yn cymryd pob cyfle i ymgorffori technegau cynaliadwy i reoli dŵr wyneb.

5.7 O 7 Ionawr 2019, mae Atodlen 3 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr (FWMA) 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i ddraenio dŵr wyneb ar gyfer datblygiadau newydd gydymffurfio â Safonau Cenedlaethol gorfodol ar gyfer systemau draenio cynaliadwy (SuDS). Rhaid i'r rhain gael eu cymeradwyo gan yr awdurdod lleol sy'n gweithredu yn ei rôl Corff Cymeradwyo SuDS (SAB) cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau. Mae'n ddyletswydd ar y SAB i fabwysiadu systemau cydymffurfio sy'n gwasanaethu mwy nag un eiddo. Bydd hyn yn cael effaith sylweddol ar y ffordd y mae datblygiadau newydd yn cael eu draenio â gofynion i sicrhau buddion lluosog gan gynnwys risg llifogydd, ansawdd dŵr, amwynder a bioamrywiaeth dros oes datblygiad.

5.8 Nid yw darparu asedau risg llifogydd newydd yn hanfodol i gyflawni'r cynllun, ond efallai y bydd angen seilwaith ychwanegol i leihau'r risg i gymunedau presennol wrth i'r ddealltwriaeth o risg llifogydd lleol esblygu dros oes y cynllun. Gall hyn fod yn arbennig o berthnasol lle cynigir datblygu ar raddfa fawr mewn ardal lle gwyddys bod y seilwaith presennol yn broblemus a / neu lle mae hanes hysbys o broblemau llifogydd.

5.9 Bydd angen i waith cynnal a chadw'r systemau draenio priffyrdd presennol a newydd addasu i ddarparu ar gyfer priffyrdd mabwysiedig newydd ac ymgorffori technegau draenio mwy cynaliadwy.

Gofynion Seilwaith

5.10 Bydd y risg llifogydd sy'n gysylltiedig â hinsawdd sy'n newid yn cynyddu i'r dyfodol. Er mwyn lliniaru'r cynnydd hwn mewn risg o lifogydd dŵr wyneb, dylid cynnwys cynllun rheoli dŵr wyneb priodol ar gyfer pob datblygiad newydd, gan ymgorffori egwyddorion dylunio trefol sy'n sensitif i ddŵr ac arfer gorau ar gyfer cynnwys datrysiadau draenio cynaliadwy. Bydd hyn yn sicrhau bod risg llifogydd i ddatblygiad newydd a phresennol yn cael ei ystyried fel cyfyngiad datblygu yn gynnar a dylai gynnwys cyswllt â'r SAB y bydd yn ofynnol iddo asesu, cymeradwyo ac o bosibl mabwysiadu'r datrysiad terfynol. Dylai ystyried llwybrau llif dŵr wyneb yn gynnar a thrawsgludiad trwy safleoedd helpu i lywio cynigion datblygu a bydd cynlluniau safleoedd yn gydnaws â'r dull newydd o ddraenio mwy cynaliadwy yng Nghymru.

Amcangyfrif o'r camau cyflwyno a chyflawni

5.11 Bydd cynnwys cynllunio rheoli dŵr wyneb ar y cam cynharaf yn y broses cynllunio datblygu yn sicrhau bod darpariaeth briodol yn cael ei gwneud i reoli llifogydd dŵr wyneb yn effeithiol ac yn gynaliadwy. Bydd hyn hefyd yn hwyluso cynnwys lleoedd aml-ddefnydd mewn datblygiadau i reoli risg llifogydd wrth ddarparu manteision ansawdd dŵr, bioamrywiaeth ac amwynder ychwanegol. Ymdrinnir â'r holl faterion dŵr wyneb yn ystod y cam cais cynllunio ac mae'n annhebygol bod unrhyw un o'r dyraniadau a nodwyd yn y cynllun angen unrhyw seilwaith llifogydd neu ddŵr galluogol er mwyn galluogi cyflwyno'r safleoedd cyn i'r datblygiad ddechrau.

Ffynonellau Ariannu

5.12 Mae Atodlen 3 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr (2010) yn ei gwneud yn ofynnol i'r datblygwr ddatblygu a darparu dull o gyllid cynaliadwy i'r SAB reoli a chynnal cynlluniau rheoli dŵr wyneb mabwysiedig am oes y datblygiad.

5.13 Ymhlith y ffynonellau cyllid posibl ar gyfer gwaith lliniaru llifogydd ehangach neu welliannau seilwaith yn y sir mae cyfalaf Cyngor Sir y Fflint, Cyfoeth Naturiol Cymru, cyfraniadau datblygwyr a rhaglen cymorth nawdd amddiffyn rhag llifogydd Llywodraeth Cymru.

Cyfleoedd i rannu cyfleusterau.

5.15 Dylai systemau draenio cynaliadwy a mesurau lliniaru llifogydd fod yn rhan annatod o brosiectau eraill y Cyngor, gan gynnwys cynlluniau priffyrdd, parciau, manau agored a phrosiectau bioamrywiaeth.

5.16 Dylid ystyried y cyfle i gael model SAB a rennir neu ranbarthol neu led-ranbarthol fel ffordd o rannu cyfleusterau.

5.16 Gellid rhannu prosiectau lliniaru llifogydd o bosibl gyda chyrrff allanol ac awdurdodau rheoli risg partner fel Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol cyfagos, Dŵr Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru yn ogystal â rhanddeiliaid preifat fel cyflogwyr lleol allweddol.

6. Gwasanaethau Cyfleustodau

a) Cyflenwad dŵr a Dŵr Gwastraff

Sefydliadau / Asiantaethau Arweiniol

- Dŵr Cymru

Pam fod Angen y Seilwaith?

- Deddf y Diwydiant Dŵr, 1991
- Mae Dŵr Cymru yn gyfrifol am fynd â dŵr gwastraff i ffordd, ei drin a'i waredu'n iawn

Darpariaeth Bresennol

6.1 Dŵr Cymru yw'r ymgymwrwr dŵr a charthffosiaeth statudol sy'n cyflenwi i dros dair miliwn o bobl yng Nghymru a rhai rhannau cyfagos o Loegr. Mae'n perthyn i Glas Cymru, cwmni un pwrpas heb unrhyw gyfranddalwyr, mae'n cael ei redeg er budd cwsmeriaid yn unig.

6.2 Mae Dŵr Cymru, ar ran eu cwsmeriaid ac yn unol â'u prif gyfrifoldebau fel y'u nodir o dan Adran 37 (dŵr) a 94 (carthffosiaeth) o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 (fel y'i diwygiwyd), yn berchen ar, yn gweithredu, yn cynnal, yn gwella ac yn ymestyn y system o garthffosydd cyhoeddus, prif gyflenwad dŵr a chyfarpar cysylltiedig ynghyd â gwaith trin a gorsafoedd pwmpio ac mae ganddo ddyletswyddau statudol cyfatebol i sicrhau draeniad effeithiol ac ar gyfer sicrhau bod cyflenwadau dŵr ar gael.

6.3 Mae llif carthion budr domestig Sir y Fflint yn cael eu trin yn y Gwaith Trin Dŵr Gwastraff canlynol:

Gwaith Trin Dŵr Gwastraff	Anheddiad a Wasanaethir
Bwcle, Ffordd Alltami	Alltami
Bwcle Tŷ Gwyn	Bwcle, Coed-Llai, Pontyblyddyn, Pontybodkin, Coed Talon
Caerwys	Caerwys, Afonwen
Cei Connah	Cei Connah, Northop Hall
Y Fflint	Y Fflint, Mynydd y Fflint, Oakenholt
Maes-glas	Bagillt, Maes-glas, Treffynnon, Helygain, Pentre Helygain
Yr Hôb	Penyffordd
Licswm	Licswm, Rhesycae, Ysceifiog
Llanasa	Berthengam, Ffynnongroyw, Llanasa, Gronant, Gwespyr, Talacre
Yr Wyddgrug	Gwernymynydd, Yr Wyddgrug, Mynydd Isa, Nercwys, New Brighton, Sychdyn
Mostyn	Brynford, Carmel, Gorsedd, Mostyn
Nannerch	Nannerch
Llaneurgain	Llaneurgain
Pantymwyn	Cilcain, Pantymwyn
Queensferry	Queensferry, Shotton, Ewlo, Penarlâg, Sandycroft, Mancot, Drury, Burntwood
Rhosesmor	Rhosesmor
Rhydymwyn	Rhydymwyn, Hendre
Trelawnyd	Gwaenysgor, Trelanwyd, Marian
Treuddyn	Treuddyn
Chwitfordd	Chwitfordd

Cysylltiadau i Awdurdodau Cymdogol

- 6.4 Mae Dŵr Cymru yn cyflenwi dŵr ac yn rheoli dŵr gwastraff yn Sir Ddinbych, ac yn rheoli dŵr gwastraff yn unig yng Ngorllewin Swydd Gaer a Chaer a Sir Wrecsam.

Materion Allweddol

- 6.5 Mae Dŵr Cymru yn 'gorff ymgynghori penodol' ym mhroses y cynllun ac o'r herwydd mae'r Cyngor wedi gweithio mewn cydweithrediad agos â Dŵr Cymru trwy gydol y broses baratoi CDLI. O ystyried dwysedd a lleoliad y datblygiad arfaethedig yn CDLI Sir y Fflint, bydd angen seilwaith dŵr a charthffosiaeth i gefnogi datblygiad ar yr adeg briodol. Bydd angen cynllunio cyflwyno a chyflawni gwaith seilwaith yn raddol i alluogi a chefnogi twf wrth weithredu o fewn rheolaethau amgylcheddol.

Gofynion Seilwaith
Gwaith Trin Dŵr Gwastraff

6.6 Rhagwelir y bydd angen darparu capasiti ychwanegol yn y Gwaith Trin Dŵr Gwastraff canlynol ar ryw adeg yn ystod cyfnod y CDLI i sicrhau y gellir darparu ar gyfer yr holl ddatblygiad.

- a) Bwcle Tŷ Gwyn
- b) Queensferry

Rhwydweithiau carthffosiaeth cyhoeddus a phrif gyflenwad dŵr

6.7 Yn y lleoliadau hynny lle nad oes capasiti hydrolog digonol yn y rhwydwaith carthffosiaeth neu ddŵr i ddarparu ar gyfer twf arfaethedig, efallai y bydd yn ofynnol i ddatblygwyr ariannu cynnal asesiadau modelu hydrolog (HMA) i sefydlu pwyntiau cysylltu addas a / neu waith atgyfnerthu angenrheidiol i'r rhwydwaith i alluogi'r safleoedd i gysylltu. Rhagwelir y gallai fod angen capasiti ychwanegol yn y rhwydwaith carthffosiaeth ym Mrychdyn, Ewlo, Penarlâg, yr Wyddgrug a New Brighton.

6.8 Oherwydd ansicrwydd y galw sy'n deillio o ddefnydd cyflogaeth, nid yw'n bosibl rhagweld llif dŵr gwastraff o'r dyraniadau cyflogaeth, byddai'r rhain yn dibynnu ar ddefnyddwyr terfynol penodol a byddent yn cael eu hasesu ymhellach yn y cam cyn-gynllunio neu gais cynllunio.

6.9 Rhaid i ddarpar ddatblygwyr hefyd fod yn ymwybodol, lle mae carthffosydd cyhoeddus a phrif gyflenwad dŵr yn croesi safleoedd, y byddai angen mesurau amddiffyn ar ffurf lled hawddfrait neu ddargyfeirio'r bibell a allai effeithio ar y dwysedd datblygu y gellir ei gyflawni ar y safle.

Ffynonellau Ariannu

6.10 Ymgwymerir â buddsoddiad cyfalaf Dŵr Cymru trwy raglen Cynllun Rheoli Asedau (AMP) pum mlynedd. Mae'r rhaglen AMP6 yn cael ei darparu ar hyn o bryd sy'n cynnwys buddsoddiad ar gyfer y cyfnod 2015-2020, a bydd AMP7 yn dilyn hyn ar gyfer y cyfnod buddsoddi 2020-25, AMP8 ar gyfer 2025-2030. Codir cyllid ar gyfer buddsoddiad cyfalaf trwy filiau cwsmeriaid.

6.11 Mae'n ofynnol i Dŵr Cymru gyflwyno cynllun busnes ar gyfer buddsoddi ar gyfer pob cylch AMP a sicrhau bod arian cwsmeriaid yn cael ei fuddsoddi'n briodol, maent yn dibynnu ar CDLlau mabwysiedig gyda safleoedd datblygu a ddyrannwyd i roi sicrwydd o dwf. Ni fydd rheoleiddiwr y diwydiant, Ofwat, yn cefnogi buddsoddiad ar gyfer seilwaith i wasanaethu twf heb ei gadarnhau. Yn hynny o beth, mae potensial i wahaniaeth yn amserlenni AMP a CDLI ac achosion lle mae amseroedd 'arwain i mewn' yn angenrheidiol i ddod â phrosiect seilwaith a chyllid cysylltiedig i ddwyn ffrwyth.

- 6.12 Pan fydd diffygion mewn cyllid yn digwydd ac nad oes capasiti yn y rhwydwaith leol o asedau i ddarparu ar gyfer twf newydd, gall y datblygwr naill ai aros i Dŵr Cymru ariannu'r gwaith atgyfnerthu angenrheidiol trwy fuddsoddiad AMP yn y dyfodol neu dalu am y gwaith eu hunain. Mae Ofwat yn disgwyl i ddatblygwyr chwarae eu rhan wrth ariannu twf a datblygiad newydd, ac na ddylai cwsmeriaid presennol Dŵr Cymru ysgwyddo costau llawn darparu seilwaith.
- 6.13 Gellir caffael carthffosiaeth a dŵr sy'n ofynnol ar gyfer unrhyw ddatblygiad posibl trwy ddarpariaethau archebu adrannau 98-101 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 (fel y'i diwygiwyd). Mae gan Dŵr Cymru, fel yr ymgymwrwr dŵr a charthffosiaeth statudol, ddyletswydd o dan y Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 i gydymffurfio â rhybudd ymholiad a gyflwynir ar gyfer darparu carthffos newydd a / neu gyfarpar cysylltiedig sy'n ofynnol at ddibenion domestig yn unig.
- 6.14 Y budd i ddatblygwr o allu defnyddio'r broses ofyn yw bod cost cynllun yn cael ei wrthbwyso gan yr incwm a gynhrychir i Dŵr Cymru trwy filiau cwsmeriaid o'r datblygiad dros gyfnod o 12 mlynedd. Pe bai'r incwm y mae Dŵr Cymru yn ei dderbyn yn fwy na chost y cynllun, yna does dim cyfraniad gan y datblygwr. I'r gwrthwyneb, pe bai'r incwm a dderbynnir yn is na chost y cynllun, byddai'n ofynnol i ddatblygwr wneud iawn am y diffyg.
- 6.15 Ni ellir gofyn am gyllid i gyflawni gwaith atgyfnerthu mewn Gwaith Trin Dŵr Gwastraff, ond gellir ei gyflawni trwy gyfraniad datblygwr a sicrhawyd trwy Adran 106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

b) Cyflenwad Dŵr

Sefydliadau / Asiantaethau Arweiniol

- Hafren Dyfrdwy

Pam fod Angen y Seilwaith?

- Deddf y Diwydiant Dŵr, 1991
- Mae Hafren Dyfrdwy yn gyfrifol am ddarparu cyflenwad parhaus o ddŵr yfed

Darpariaeth Bresennol

- 6.16 Mae ardaloedd Sir y Fflint yn cynnwys dau barth adnoddau dŵr (WRZ): Wrecsam WRZ sy'n cael ei gyflenwi gan 3 gwaith trin dŵr gyda Llwyn Onn (Wrecsam) yn brif waith. Saltney WRZ sy'n derbyn swmp-gyflenwad gan Severn Trent.

Cysylltiadau i Awdurdodau Cymdogol

- 6.17 Mae Hafren Dyfrdwy yn rheoli dŵr ar gyfer ardaloedd Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Wrecsam a Powys. Mae cysylltiadau hefyd ag ardal Severn Trent, yn benodol ardal Gorllewin Caer a Chaer.

Materion Allweddol

- 6.18 O ystyried dwysedd a lleoliad y datblygiad arfaethedig yn CDLI Sir y Fflint, bydd angen seilwaith dŵr i gefnogi datblygiad ar yr adeg briodol. Bydd angen cynllunio cyflwyno a chyflawni gwaith seilwaith yn raddol i alluogi a chefnogi twf wrth weithredu o fewn rheolaethau amgylcheddol. Mae Hafren Dyfrdwy yn cynllunio ar gyfer datblygiadau newydd yn seiliedig ar ddatblygiad sy'n cwrdd â safon y rheoliadau adeiladu o 110 litr y pen y dydd.

Gofynion Seilwaith

- 6.19 Bydd gofynion seilwaith yn benodol i bob cynllun unigol a bydd yr amser y daw'r datblygiad ymlaen, graddfa'r datblygiad arfaethedig ac unrhyw waith cysylltiedig a wnaed yn yr amser cyn y cynllun, yn dylanwadu arnynt.
- 6.20 Rhaid i ddarpar ddatblygwyr hefyd fod yn ymwybodol, lle mae prif gyflenwad dŵr yn croesi safleoedd, y byddai angen mesurau amddiffyn ar ffurf lled hawddfrait neu ddargyfeirio'r bibell a allai effeithio ar y dwysedd datblygu y gellir ei gyflawni ar y safle.

Ffynonellau Ariannu

- 6.21 Byddai rhai o'r gwaith seilwaith sy'n ofynnol i gyflawni'r safleoedd yn dod o fewn cylch gwaith Rhaglen Buddsoddi Cyfalaf Rheoleiddio Hafren Dyfrdwy, y cytunir arni bob pum mlynedd. Bydd y rownd nesaf o gyllid, y manylir arni yng Nghynllun Rheoli Asedau y cwmni, AMP7, yn cael ei chymeradwyo yn 2019/2020 (i gwmpasu'r cyfnod 2020-2025).
- 6.22 Mae Hafren Dyfrdwy wedi cynnwys y twf disgwylid ar gyfer y 25 mlynedd nesaf yn seiliedig ar wybodaeth cynllun datblygu awdurdodau lleol, ond lle bydd datblygiad yn creu angen am gyfleusterau ychwanegol cyn Buddsoddiad Rheoleiddio Ymgymwrwr, gallai fod yn rhesymol i ddatblygwyr gwrdd neu gyfrannu tuag at y cost o ddarparu cyfleusterau o'r fath. Nid yw rheoleiddiwr y diwydiant, Ofwat, yn cefnogi'r buddsoddiad ar gyfer seilwaith i wasanaethu twf heb ei gadarnhau ac felly mae potensial am wahaniaeth mewn amserlenni rhwng AMP a CDLI.
- 6.23 Bydd costau seilwaith yn benodol i bob cynllun unigol a bydd yr amser y daw'r datblygiad ymlaen, graddfa'r datblygiad arfaethedig ac unrhyw waith cysylltiedig a wnaed yn yr amser cyn y cynllun, yn dylanwadu arnynt. O'r herwydd, nid yw'n bosibl priodoli cost amcangyfrifedig i'r eitem seilwaith hon ar hyn o bryd.

c) Nwy

Sefydliadau / Asiantaethau Arweiniol

- Y Grid Cenedlaethol
- Wales and West Utilities

Pam fod Angen y Seilwaith?

- 6.24 Mae'n ddyletswydd ar ddarparwr y rhwydwaith i ddatblygu a chynnal system drosglwyddo effeithlon, gydlynol ac economaidd ar gyfer cludo nwy.

Darpariaeth Bresennol

- 6.25 Wales and West Utilities yw perchennog, gweithredwr a datblygwr y system dosbarthu nwy leol yn y rhan fwyaf o Gymru gan gynnwys Wrecsam.

Cysylltiadau i Awdurdodau Cynddogol

- 6.26 Mae'r Grid Cenedlaethol yn berchen ar ac yn gweithredu'r system trosglwyddo nwy pwysedd uchel yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Materion Allweddol

- 6.27 Mae angen datblygiadau seilwaith trosglwyddo nwy newydd (piblinellau a gosodiadau cysylltiedig) o bryd i'w gilydd i gwrdd â'r cynnydd yn y galw a newidiadau mewn patrymau cyflenwi.

d) Trydan

Sefydliadau / Asiantaethau Arweiniol

- Y Grid Cenedlaethol
- SP Energy Networks

Pam fod Angen y Seilwaith?

- 6.28 Mae gan y Grid Cenedlaethol o dan Ddeddf Trydan 1989 ddyletswydd statudol i ddatblygu a chynnal system drosglwyddo trydan effeithlon, gydlynol ac economaidd. SP Energy Networks yw'r dosbarthwr lleol sy'n cysylltu'r Grid Cenedlaethol ag eiddo unigol. Maent yn gyfrifol am adfer cyflenwad, gwneud cysylltiadau newydd a chynnal perfformiad y rhwydwaith.

Darpariaeth Bresennol

- 6.29 Mae'r Grid Cenedlaethol yn gweithredu'r rhwydwaith trosglwyddo trydan cenedlaethol ledled Prydain Fawr ac yn berchen ar / yn cynnal y rhwydwaith yng Nghymru a Lloegr, gan ddarparu cyflenwadau trydan o orsafoedd cynhyrchu i gwmnïau dosbarthu lleol.

- 6.30 Mae cwmnïau rhanbarthol ar wahân yn berchen ar y rhwydweithiau dosbarthu trydan sy'n cynnwys llinellau a cheblau uwchben ar 132k folt ac is. Rôl y cwmnïau dosbarthu lleol hyn yw dosbarthu trydan i gartrefi a busnesau. Y cwmni dosbarthu trydan lleol yw SP Networks.
- 6.31 Mae llinellau trosglwyddo / ceblau trydan tanddaearol foltedd uchel y Grid Cenedlaethol yn ardal weinyddol Cyngor Sir y Fflint, yn rhan hanfodol o'r rhwydwaith trosglwyddo trydan yng Nghymru a Lloegr.

Cysylltiadau i Awdurdodau Cymdogol

- 6.32 Mae'r Grid Cenedlaethol yn gweithredu'r rhwydwaith trosglwyddo trydan cenedlaethol ledled Prydain Fawr ac yn berchen ar / yn cynnal y rhwydwaith yng Nghymru a Lloegr. Mae SP Networks yn cynnwys canolbarth a gogledd Cymru, Swydd Caer a Glannau Mersi.

Materion Allweddol

- 6.33 Mae cynigion ar gyfer prosiectau trydan newydd yn aml yn cynnwys atgyfnerthiadau trosglwyddo sy'n bell o'r safle cynhyrchu, megis llinellau uwchben newydd neu ddatblygiad newydd mewn is-orsafoedd. Os bydd cynnydd sylweddol yn y galw ar draws ardal dosbarthu rhwydwaith trydan lleol, yna gall y gweithredwr dosbarthu rhwydwaith lleol geisio atgyfnerthiadau mewn is-orsaf bresennol neu bwynt cyflenwi grid newydd. Yn ogystal, gall y Grid Cenedlaethol wneud gwaith datblygu yn ei is-orsafoedd presennol i fodloni patrymau newidiol cynhyrchu a chyflenwi.
- 6.34 Trafodir ystyriaethau cysylltiad mewn perthynas â Gosodiadau Ynni Adnewyddadwy ymhellach yn Aseiad Ynni Adnewyddadwy Sir y Fflint.

Gofynion Seilwaith

- 6.35 Disgwylir i ddatblygwyr gysylltu â SP Networks i sicrhau bod gwaith oddi ar y safle ac ar y safle i hwyluso cyflenwad trydan newydd yn cael ei wneud os oes angen ac i sicrhau bod unrhyw waith atgyfnerthu angenrheidiol oddi wrth y cwsmer yn cael ei wneud.
- 6.36 Lle bo angen, dylai'r datblygwr nodi bod digon o dir wedi'i neilltuo yn eu safle datblygu i ddarparu ar gyfer y seilwaith cyflenwi trydan sy'n ofynnol i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg a nodwyd.
- 6.37 Un o'r prif faterion mewn perthynas â'r galw am drydan yn y dyfodol yw'r defnydd cynyddol o Gerbydau Trydan (EV). Mae Scottish Power yn amcangyfrif bod y DU ar hyn o bryd, (Mai 2019) oddeutu 2 i 3 blynedd i ffwrdd o dderbyniad torfol yn y defnydd o EV a bod angen i'r cynllun hwn nodi hyn fel mater o bwys. Dylai pob datblygiad tai newydd ymgorffori'r seilwaith i alluogi defnydd eang o EV's sy'n gwefru gartref. Mae'r costau y mae datblygwyr yn eu hysgwyo ar hyn o bryd wrth wneud cysylltiadau â datblygiadau yn debygol o gynyddu deirgwaith

oherwydd y safiad hwn gan SPEN, a dangosir costau cysylltiad dangosol ar gyfer dyraniadau tai yn y tabl sydd ynghlwm wrth y ddogfen hon. Mae'n werth nodi hefyd, os bydd unrhyw flociau swyddfa mawr, ffatrioedd neu gyfleusterau masnachol yn dechrau trosi eu lleoedd parcio ceir i gynnwys Pwyntiau Gwefru EV yna gallai'r ffigurau yn y tabl newid.

Amcangyfrif o'r camau cyflwyno a chyflawni

- 6.38 Bydd gofynion seilwaith yn benodol i bob cynllun unigol a bydd yr amser y daw'r datblygiad ymlaen, graddfa'r datblygiad arfaethedig ac unrhyw waith cysylltiedig a wnaed yn yr amser cyn y cynllun, yn dylanwadu arnynt.

Ffynonellau Ariannu

- 6.39 Lle bydd datblygiad yn creu'r angen am seilwaith newydd neu wedi'i uwchraddio, sydd naill ai'n ofynnol cyn, neu y tu allan i gylch gwaith rhaglen fuddsoddi'r darparwyr gwasanaeth, bydd disgwyl i'r datblygwr dalu neu gyfrannu at gost darparu seilwaith o'r fath.
- 6.40 Bydd costau'n benodol i bob cynllun unigol a bydd yr amser y daw'r datblygiad ymlaen, graddfa'r datblygiad arfaethedig ac unrhyw waith cysylltiedig a wnaed yn yr amser cyn y cynllun, yn dylanwadu arnynt.

e) Telathrebu

Sefydliadau / Asiantaethau Arweiniol

- British Telecom
- Cyngor Sir y Fflint, Trwy'r Bid Bargaen Twf (gyda Phartneriaid Allweddol mewn Busnes, Addysg Uwch ac Addysg Bellach)

Pam fod Angen y Seilwaith?

- 6.41 Mae gan British Telecom (BT) Rwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol i ddarparu llinellau ffôn i bob adeilad. Mae prosiect Superfast Cymru yn dod â mynediad at fand eang cyflym i fwyafrif y cartrefi a busnesau yng Nghymru na allant ei gael trwy raglenni masnachol y sector preifat ei hun.

Darpariaeth Bresennol

- 6.42 Mae BT yn darparu cysylltedd band eang ledled Bwrdeistref y Sir, er bod argaeledd 'SuperFast' (>lawrlwythiad 80Mbit / eiliad) neu 'Ultrafast' (>lawrlwythiad 100Mbit / eiliad) yn amrywio ledled y Sir ac mae'n dibynnu ar gyflenwyr yn uwchraddio cabinetau a'r seilwaith presennol.
- 6.43 Mae BT, trwy eu his-gwmni bwrdeistrefol BT Openreach, yn darparu gwasanaethau cyfanwerthol i sefydliadau eraill, er enghraifft TalkTalk a Sky ac ati i ddarparu gwasanaethau band eang a ffôn.

- 6.44 Mae cyfnewidfeydd ffôn BT yn cysylltu â chabinetau ledled y Sir, o'r cabinetau hyn mae cysylltiadau â Phwyntiau Dosbarthu (DPs) sydd wedyn â chysylltedd ag adeiladau trwy geblau uwchben neu ddwythellau tanddaearol. Mae'r cysylltedd olaf trwy gysylltiad copr, ond mae'r dechnoleg hon yn newid i gebl ffibr optig.
- 6.45 Nid yw darparu gwasanaethau telathrebu bellach yn cael ei reoleiddio felly gallai darparwyr eraill ddarparu gwasanaethau os ydynt yn fasnachol hyfyw.

Cysylltiadau i Awdurdodau Cymdogol

- 6.46 Mae'r rhwydwaith telathrebu yn cynnwys Prydain Fawr gyfan gyda sawl cysylltiad rhyngwladol. Ar hyn o bryd mae cysylltiadau rhyngwladol yn mynd trwy'r Cyfnewidfeydd Rhyngrwyd yn Llundain, Leeds a Manceinion.

Materion Allweddol

- 6.47 Mae darparwyr presennol mewn sefyllfa dda i ddelio â thwf yn yr ardaloedd trefol a darparu capasiti. Fodd bynnag, mae rhai ardaloedd, yn enwedig ardaloedd gwledig ar ei hôl hi o ran darpariaeth band eang am nifer o resymau technegol a masnachol.

Gofynion Seilwaith

- 6.48 Disgwylir i ddatblygwyr gysylltu â BT i sicrhau bod gwaith oddi ar y safle ac ar y safle i hwyluso seilwaith telathrebu yn cael ei wneud os oes angen ac i sicrhau bod unrhyw waith atgyfnerthu angenrheidiol oddi wrth y cwsmer yn cael ei wneud.
- 6.49 Lle bo angen, dylai'r datblygwr nodi bod digon o dir wedi'i neilltuo yn eu safle datblygu i ddarparu ar gyfer y seilwaith telathrebu sy'n ofynnol i fynd i'r afael ag unrhyw angen a nodwyd.

Amcangyfrif o'r camau cyflwyno a chyflawni

- 6.50 Bydd gofynion seilwaith yn benodol i bob cynllun unigol a bydd yr amser y daw'r datblygiad ymlaen, graddfa'r datblygiad arfaethedig ac unrhyw waith cysylltiedig a wnaed yn yr amser cyn y cynllun, yn dylanwadu arnynt.

Ffynonellau Ariannu

- 6.51 Lle bydd datblygiad yn creu'r angen am seilwaith newydd neu wedi'i uwchraddio, sydd naill ai'n ofynnol cyn, neu y tu allan i gylch gwaith rhaglen fuddsoddi'r darparwyr gwasanaeth, bydd disgwyl i'r datblygwr dalu neu gyfrannu at gost darparu seilwaith o'r fath.
- 6.52 Bydd costau'n benodol i bob cynllun unigol a bydd yr amser y daw'r datblygiad ymlaen, graddfa'r datblygiad arfaethedig ac unrhyw waith cysylltiedig a wnaed yn yr amser cyn y cynllun, yn dylanwadu arnynt. O'r herwydd, nid yw'n bosibl priodoli cost amcangyfrifedig i'r eitem seilwaith hon ar hyn o bryd.

Atodiad 1:

Y Rhanddeiliaid Allweddol y cysylltwyd â nhw

Priffyrdd:

Teithio Llesol – CSFf Sue Price

Rheilffyrdd a Bysiau – CSFf Ceri Hansom, Lisa Bullock Network Rail, Lois Park
Trafnidiaeth Cymru

Ffyrdd – CSFf Anthony Stanford

Addysg – CSFf Damian Hughes, Paula Vogt

Iechyd - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr - Sally Baxter

Rheolaeth Amgylcheddol – CSFf Ruairi Barry

Gwasanaethau Cyfleustodau

Dŵr Gwastraff Dŵr Cymru – Dewi Griffiths

Cyflenwadau Dŵr Dŵr Cymru – Dewi Griffiths a Hafren Dyfydwy Elaine Ring, Helen
Everitt

Nwy – Wales and West Utilities, Ben Jones

Trydan

Scottish Power - Rachel Shorney, Grid Cenedlaethol - Hannah Lorna Bevins Spencer
Jefferies

Telathrebu - Ginny Hall, Mono Consultants

Atodiad 2

Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint i'w Archwilio gan y Cyhoedd 2015 - 2030

CYNLLUN SEILWAITH (2019)

Gofynion Isadeiledd Safleoedd Strategol Allweddol a Safleoedd wedi'u Dyrannu

Safleoedd Strategol Allweddol

Safle Strategol Allweddol Porth y Gogledd

STR3A Safle Datblygiad Defnydd Cymysg Porth y Gogledd: Cyflogaeth, tai, masnachol, cyfleusterau cymunedol:

- i. 1,325 o dai newydd, gan gynnwys tai fforddiadwy
- ii. 72.4 hectar o dir cyflogaeth B2/B8
- iii. Canolfan datblygiad masnachol wrth ymyl yr A550
- iv. Canolfan(Canolfannau) gyfleustra ardal i ddiwallu anghenion lleol
- v. Cryfhau a chodi amddiffynfeydd llifogydd afon Dyfrdwy
- vi. Darparu isadeiledd ffordd mewnol
- vii. Darparu tir a chyfraniad at estyniad Ysgol Gynradd Sealand
- viii. Datrysiad rheoli draenio/llifogydd cynaliadwy
- ix. Darparu rhwydwaith isadeiledd gwyrdd
- x. Ail-ddefnyddio tiroedd ac adeiladau rhestredig John Summers yn sensitif

Cyfeirnod Teithio Llesol DIP 9/10 ac 11

Rhwydweithiau Ynni Scottish Power 1 x is-orsaf 33Kv newydd - tua £1 miliwn i £5 miliwn (tai newydd yn unig)

Trosolwg o'r Amserlen ym mis Ebrill 2019 - 2021

STR3B Safle Datblygiad Defnydd Cymysg Warren Hall: Cyflogaeth a thai:

- i. 300 o dai newydd, gan gynnwys tai fforddiadwy
- ii. Tir cyflogaeth B1 a B2 o ansawdd uchel
- iii. Canolbwynt masnachol yn cynnwys gwesty, hamdden, canolfan leol a manwerthu
- iv. Tirlunio strategol a rhwydwaith isadeiledd gwyrdd
- v. Cysylltiadau trafniadaeth gynaliadwy gydag aneddiadau cyfagos a chysylltiad â rhan o lwybr Teithio Llesol yr Wyddgrug – Glannau Dyfrdwy rhwng Penymynydd a Brychdyn.

Cyfeirnod Teithio Llesol BR2/2

Rhwydweithiau Ynni Scottish Power 4 x is-orsaf 11Kv newydd - tua £320 mil i £500 mil (tai newydd yn unig)

Trosolwg o'r Amserlen ym mis Ebrill 2019 - 2023

Haen 1 Prif Ganolfan Wasanaeth

Enw'r Safle: BUC 031 Well Street Bwcle 5.3 ha 159 uned

Math o isadeiledd	Disgrifiad	Dull Darparu	Amserlen a Ragwelir ar gyfer cyflawni	Trosolwg o'r Amserlen ym mis Ebrill 2019	Statws
				2021	
Dŵr	<p>Dŵr Cymru – Mae'r safle o fewn dalgylch Bwcle Tŷ Gwyn WwTW.</p> <p>Mae posibilrwydd y bydd y rhwydwaith carthffosiaeth cyhoeddus yn gallu derbyn dŵr budr o'r safle datblygu hwn.</p> <p>Gellir darparu cyflenwad dŵr ar gyfer y safle hwn.</p>	Dŵr Cymru neu'n gynt drwy gyfraniadau gan y datblygwr			Angenrheidiol
Priffyrdd	<p>Mae gwybodaeth ychwanegol wedi'i derbyn gan Waites fel rhan o gynllun SHARP cynharach. Tra bod yr egwyddor o ddatblygiad preswyl wedi'i dderbyn ystyriwyd nad oedd y cynllun manwl arfaethedig yn dderbyniol. Bydd angen cynllun cyffordd a fydd yn cyfyngu ar symudiadau ychwanegol i'r rhan wledig o Well Street ynghyd â ffyrdd wedi'u gosod i safon y gellir eu mabwysiadu a darpariaeth seiclo briodol.</p> <p>Bydd y mynediad i Well Street yn cael ei ddylunio i osgoi gorfod tro i'r dde a defnyddio ffyrdd gwledig i'r de / cadw a gwella'r perthi a ffiniau wedi'u tirlunio.</p>	Fel rhan o'r broses o wneud Cais Cynllunio.			Angenrheidiol

	<p>Mae llwybr Teithio Llesol BU15 yn llwybr cerdded rhwng Mynydd Isa a Bwcle ar hyd yr A549 Ffordd yr Wyddgrug, ac yn cysylltu â llwybrau eraill ym Mynydd Isa ac ym Mwcle. Y mesur arfaethedig yw gosod arwyneb newydd a chreu croesfannau botymog isel. Mae'n rhaid i'r safle hwn sicrhau cysylltiadau cerdded addas â'r llwybr hwn.</p> <p>Llwybrau bysiau – Gwasanaethir Bryn Awelon / Well Street gan LT4, sef gwasanaeth bws lleol sy'n gwasanaethu Bwcle. Gwasanaethir Ffordd Nant Mawr gan wasanaeth rhif 5 ac 13 a gwasanaethir Ffordd yr Wyddgrug gan wasanaeth rhif 4/ 4s a gwasanaeth X4. Bydd yn rhaid i'r datblygiad sicrhau bod llwybrau cerdded addas yn cael eu darparu at y gwasanaethau hyn.</p>				
Halogyddion	<p>Er ei fod yn dir amaethyddol (gradd 3b) efallai y bydd angen asesu'r safle o ran presenoldeb halogyddion o ystyried y gweithgarwch / defnydd yn y gorffennol.</p>				Angenrheidiol
Draenio	<p>Angen arafu llif dŵr wyneb. Mae'n bosibl gosod system SUDS o fewn man agored cyhoeddus yn y gornel yn ne-ddwyrain y safle.</p>				Angenrheidiol
Ecoleg	<p>Tir amaethyddol wedi'i wella gydag ychydig iawn o gofnodion o rywogaethau a warchodir. Byddai'n rhaid i unrhyw ddatblygiad asesu ecoleg y safle a darparu Asesiad o'r Effaith ar Ecoleg gyda'r mesurau lliniaru ac osgoi priodol. Cadw a gwella perthi a ffiniau wedi'u tirlunio. Dylid cyfeirio at CCA 8a mewn perthynas â phresenoldeb posibl madfallod dŵr cribog.</p>				Angenrheidiol

Mannau agored cyhoeddus	Man agored cyhoeddus 8,900m2 mewn man canolog gyda gofod chwarae a hamdden.	Sector Preifat	Mae'n rhaid i'r man agored / chwarae fod yn barod at ddefnydd y cyhoedd pan fo 50% o'r datblygiad wedi'i werthu neu ei feddiannu.		Angenrheidiol
Addysg	Mae nifer y disgyblion yn amrywio dros amser ac felly mae'r trothwy ar gyfer cyfraniadau a nifer y lleoedd gwag mewn ysgol benodol yn amrywio. I dderbyn canllawiau ar Gyfraniadau at Addysg dylid edrych ar Nodyn Canllaw Cynllunio Atodol 23 Cyfraniadau Datblygwyr at Addysg Cyngor Sir y Fflint sy'n manylu ar y fformiwla a ddefnyddir i gyfrifo'r cyfraniadau hyn.	Cyfraniadau datblygwyr – Sector Preifat	Bydd yn rhaid llofnodi Cytundeb Adran 106 ar adeg y Cais Cynllunio, a fydd yn nodi'r amserlen ar gyfer taliadau.		Angenrheidiol
Tai Fforddiadwy	Cyfraniad tai fforddiadwy o 40%, sef 64 uned.	Darpariaeth ar y safle	Yn unol â'r canllawiau tai		Angenrheidiol
Rhwydweithiau Ynni Scottish Power	2 is-orsaf 11Kv newydd – tua £160mil i £200mil.	Cyfraniadau datblygwr	Yn unol â'r canllawiau tai		Angenrheidiol
Enw'r Safle: (CON 002) Broad Oak Holding, Ffordd yr Wyddgrug, Cei Connah. 1.3 ha 37 uned					
Math o Isadeiledd	Disgrifiad	Dull Darparu	Amserlen a Ragwelir ar gyfer Cyflawni	Trosolwg o'r amserlen ym mis	Statws

				Ebrill 2019 2021	
Dŵr	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r rhwydwaith carthffosiaeth cyhoeddus yn gallu derbyn dŵr budr o'r safle datblygu hwn Mae modd darparu cyflenwad dŵr ar gyfer y safle hwn Dylai datblygwyr posibl fod yn ymwybodol bod prif bibell ddŵr yn croesi'r safle hwn ac felly y bydd angen mesurau diogelu ar ffurf lled hawddfrait neu wyro'r brif bibell, a all effeithio ar ddwysedd y tai.. 	Sector Cyhoeddus a Phreifat			Angenrhei diol
Priffyrdd	Dim gwrthwynebiad i gynnwys y tir hwn sydd bellach yn destun cais cynllunio 058053.				Angenrhei diol
Halogiad	Dim cyfeiriad at halogiad.				Angenrhei diol
Draenio	Gofynion draenio yn unol â chais cynllunio 058053.				Angenrhei diol
Ecoleg	<p>Mae'r safle o fewn 20 metr o Ardal Gadwraeth Arbennig safleoedd madfallod Glannau Dyfrdwy a Bwcle. Cyfeiriwch at CCA 8a Gofynion Diogelu Madfallod Dŵr Cribog: Byddai'n rhaid i bob datblygiad asesu'r holl faterion ecolegol ar y safle a'r effaith ar yr Ardal Gadwraeth Arbennig gyfagos, a dylid darparu Asesiad o'r Effaith ar Ecoleg gyda mesurau i osgoi, lliniaru, digolledu, gwella a rheoli nodweddion bywyd gwyllt.</p> <p>Mae'r Cytundeb Adran 106 yn gofyn am daliad o £40,000 tuag at wella a chynnal a chadw'r darn o dir wrth ymyl y safle, sydd ym meddiant Cyngor Sir y Fflint, ar gyfer bywyd gwyllt a hamdden anffurfiol.</p>				Angenrhei diol

<p>Mannau agored cyhoeddus</p>	<p>Byddai ar yr Awdurdod angen man agored cyhoeddus oddeutu 1,850m2 gyda gofod chwarae a hamdden. O ystyried bod cynllun y man agored cyhoeddus wedi'i leihau a bod man agored ar gael gerllaw mewn datblygiad cyfagos, dylid rhannu ag agor y cynnig hwn gyda'r man agored cyhoeddus ar ddatblygiad Fair Oaks er mwyn manteisio i'r eithaf ar y gwerth chwarae. Dylid gwneud hyn drwy gael gwared ar y perthi neu ran o'r perthi er mwyn darparu mynediad rhwng y ddau fan agored. Os gellir gwneud hyn, byddai'r cynnig man agored cyhoeddus yn dderbyniol ond byddai angen darparu cyfraniad ychwanegol oddi ar y safle yn lle'r cynnig man agored cyhoeddus llai o faint. Mae'r Cytundeb Adran 106 yn cynnwys taliad o £5500 yn lle'r diffyg darpariaeth ar gyfer hamdden pobl ifanc yn Ardal Chwarae Hillside Avenue, Cei Connah. Gofynnir hefyd am Gwmni Rheoli i reoli a chynnal a chadw'r man agored cyhoeddus ar y safle a'r ardaloedd cymunedol sydd wedi'u tirlunio.</p>	<p>Sector Preifat</p>	<p>Mae'n rhaid i'r man agored / chwarae fod yn barod at ddefnydd y cyhoedd pan fo 50% o'r datblygiad wedi'i werthu neu ei feddiannu.</p>		<p>Angenrheidiol</p>
<p>Addysg</p>	<p>Mae nifer y disgyblion yn amrywio dros amser ac felly mae'r trothwy ar gyfer cyfraniadau a nifer y lleoedd gwag mewn ysgol benodol yn amrywio. I dderbyn canllawiau ar Gyfraniadau at Addysg dylid edrych ar Nodyn Canllaw Cynllunio Atodol 23 Cyfraniadau Datblygwyr at Addysg Cyngor Sir y Fflint sy'n manylu ar y fformiwla a ddefnyddir i gyfrifo'r cyfraniadau hyn.</p>	<p>Sector Cyhoeddus a Phreifat</p>	<p>Bydd yn rhaid llofnodi Cytundeb Adran 106 ar adeg y Cais Cynllunio, a fydd yn nodi'r amserlen ar gyfer taliadau.</p>		<p>Angenrheidiol</p>

Tai Fforddiadwy	Mae'r Cytundeb Adran 106 yn nodi y dylid darparu dau dŷ tair ystafell wely a dau dŷ dwy ystafell wely am rent fforddiadwy a gwerthu dau dŷ dwy ystafell wely am 70% o werth y farchnad. Mae'r holl dai fforddiadwy ar gael i unigolion ar y gofrestr tai fforddiadwy.				Angenrheidiol
Rhwydweithiau Ynni Scottish Power	Mae'n bur debyg y bydd y rhwydwaith LV yn cael ei wella – hyd at £50mil.				Angenrheidiol
(CON 093) Highmere Drive, Cei Connah 5 ha 150 uned					
Math o Isadeiledd	Disgrifiad	Dull Darparu	Amserlen a Ragwelir ar gyfer Cyflawni	Trosolwg o'r amserlen ym mis Ebrill 2019	Statws
				2021	
Dŵr	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r rhwydwaith carthffosiaeth cyhoeddus yn gallu derbyn dŵr budr o'r safle datblygu hwn Mae modd darparu cyflenwad dŵr ar gyfer y safle hwn 				Angenrheidiol
Priffyrdd	Yn addas ar gyfer rhywfaint o ddatblygu, dylid asesu addasrwydd Highmere Drive a chyffordd Highmere Drive/Ffordd Llanarth i weld a yw'n addas ar gyfer datblygiad llawn. Dylid gofyn i'r ymgeisydd ddarparu gwybodaeth ychwanegol. Awgrymwyd ar un adeg y byddai mynediad eilradd/mewn argyfwng yn bosibl drwy Degas Close, ond mae'n bosibl cael ail fynediad ar draws tir ym meddiant y Cyngor ar Courbet Drive.				Angenrheidiol

	Cyfeirnod Teithio Llesol CQ2/1. Mae'r agosrwydd at Lwybr Beicio Cenedlaethol 5 wedi'i nodi; mae cynllun gwella CQ2/1 wedi'i gynnwys ar Fap Rhwydwaith Teithio Llesol Integredig Sir y Fflint (mae cyfraniad ariannol tuag at gost y cynllun hwn yn debygol o fod yn ofynnol fel rhan o unrhyw ddatblygiad).				
Halogiad	Dim cyfeiriad at halogiad.				Angenrheidiol
Draenio	Mae'r safle yn gallu draenio dŵr wyneb yn amodol ar SUDS cymeradwy.				Angenrheidiol
Ecoleg	Mae'r safle o fewn 500 metr i Ardal Gadwraeth Arbennig safleoedd madfallod Glannau Dyfrdwy a Bwcle sydd â madfallod dŵr cribog. Dylid cyfeirio at CCA Mae gan y safle nifer o Orchmynion Diogelu Coed, madfallod dŵr cribog, moch daear ac adar yn nythu. Byddai'n rhaid i bob datblygiad asesu'r holl faterion ecolegol ar y safle a'r effaith ar yr Ardal Gadwraeth Arbennig gyfagos, a dylid darparu Asesiad o'r Effaith ar Ecoleg gyda mesurau i osgoi, lliniaru, digolledu, gwella a rheoli nodweddion bywyd gwyllt.				Angenrheidiol
Mannau agored cyhoeddus	Man agored cyhoeddus 8,400m ² mewn man canolog gyda gofod chwarae a hamdden. Dylai'r ddarpariaeth gynnwys ardal chwarae gydag eitemau chwarae penodol i ystod o oedrannau.		Mae'n rhaid i'r man agored / chwarae fod yn barod at ddefnydd y cyhoedd pan fo 50% o'r datblygiad		Angenrheidiol

			wedi'i werthu neu ei feddiannu.		
Addysg	Mae nifer y disgyblion yn amrywio dros amser ac felly mae'r trothwy ar gyfer cyfraniadau a nifer y lleoedd gwag mewn ysgol benodol yn amrywio. I dderbyn canllawiau ar Gyfraniadau at Addysg dylid edrych ar Nodyn Canllaw Cynllunio Atodol 23 Cyfraniadau Datblygwyr at Addysg Cyngor Sir y Fflint sy'n manylu ar y fformiwla a ddefnyddir i gyfrifo'r cyfraniadau hyn.	Sector Cyhoeddus a Phreifat	Bydd yn rhaid llofnodi Cytundeb Adran 106 ar adeg y Cais Cynllunio, a fydd yn nodi'r amserlen ar gyfer taliadau.		Angenrheidiol
Tai Fforddiadwy	35% o'r tai yn dai fforddiadwy, sef 53 uned.				Angenrheidiol
Rhwydweithiau Ynni Scottish Power	2 is-orsaf 11Kv newydd – tua £160mil i £200mil.				Angenrheidiol
FLI007/ 015 Northop Road, Y Fflint 9.3 ha 170 uned					
Math o Isadeiledd	Disgrifiad	Dull Darparu	Amserlen a Ragwelir ar gyfer Cyflawni	Trosolwg o'r amserlen ym mis Ebrill 2019	Statws
				2021	
Dŵr	Mae'r rhwydwaith carthffosiaeth cyhoeddus yn gallu derbyn dŵr budr o'r safle datblygu hwn. Mae modd darparu cyflenwad dŵr ar gyfer y safle hwn.				Angenrheidiol
Priffyrdd	Yn amodol ar ymholiad cyn cyflwyno cais cynllunio, dim pryder sylweddol. Gan fod y safle yn destun dau gais cynllunio heb eu cadarnhau,				Angenrheidiol

	rydym yn trafod sut i gael un pwynt mynediad i'r safle gyda'r datblygwyr.				
Halogiad	Colli 5.62ha o dir amaethyddol gradd 2 a'r rhagwelir hefyd y bydd 0.29ha o dir gradd 3a yn cael ei golli. Daw hyn i gyfanswm o 5.91ha o dir gorau a mwyaf amlbwrpas. Dim cyfeiriad at halogiad.				Angenrhei diol
Draenio					Angenrhei diol
Ecoleg	Mae'r safle yn dir amaethyddol wedi'i wella i'r dwyrain o Swinchiard Brook gyda pherthi a choed ac ychydig iawn o gofnodion o rywogaethau, ond mae'n bosibl bod amffibiaid, moch daear ac adar nythu ar y safle. Mae Coed Stanley i'r gorllewin o'r safle. Byddai'n rhaid i unrhyw ddatblygiad asesu ecoleg y safle a darparu Asesiad o'r Effaith ar Ecoleg gyda'r mesurau lliniaru ac osgoi priodol. Mae'r safle wedi bod yn destun sawl arolwg - brochfa moch daear fawr a madfallod dŵr cribog wedi'u cofnodi.				Angenrhei diol
Mannau agored cyhoeddus	Man agored cyhoeddus 9,600m ² gyda gofod chwarae a hamdden. Dylai'r ddarpariaeth gynnwys ardal chwarae gydag eitemau chwarae penodol i ystod o oedrannau. Mae angen tir gwastad ar gyfer gemau pêl, rhedeg a chwarae'n rhydd ar safle datblygu o'r maint hwn, a dylai'r gofod hwnnw fod yn 4500m ² o'r 9.600m ² .		Mae'n rhaid i'r man agored / chwarae fod yn barod at ddefnydd y cyhoedd pan fo 50% o'r datblygiad wedi'i werthu neu ei feddiannu.		Angenrhei diol

Addysg	Mae nifer y disgyblion yn amrywio dros amser ac felly mae'r trothwy ar gyfer cyfraniadau a nifer y lleoedd gwag mewn ysgol benodol yn amrywio. I dderbyn canllawiau ar Gyfraniadau at Addysg dylid edrych ar Nodyn Canllaw Cynllunio Atodol 23 Cyfraniadau Datblygwyr at Addysg Cyngor Sir y Fflint sy'n manylu ar y fformiwla a ddefnyddir i gyfrifo'r cyfraniadau hyn.	Sector Cyhoeddus a Phreifat	Bydd yn rhaid llofnodi Cytundeb Adran 106 ar adeg y Cais Cynllunio, a fydd yn nodi'r amserlen ar gyfer taliadau.		Angenrheidiol
Tai Fforddiadwy	15% o'r tai yn dai fforddiadwy, sef 26 uned.				Angenrheidiol
Rhwydweithiau Ynni Scottish Power	Yn ôl gwybodaeth ynni Scottish Power mae capasiti'r safle yn 280 uned, felly'r gofyniad yw 3 is-orsaf 11kV a fydd yn costio rhwng £250mil a £300mil. Ond capasiti'r safle newydd yw 170 felly mae hynny'n golygu dwy is-orsaf 11kV a fydd yn costio oddeutu - £160mil i £200mil.				Angenrheidiol
MOL020/57 Maes Gwern, yr Wyddgrug 5.7ha 160 uned. Oherwydd dyddiad y caniatâd, nid oes modd cynnwys y safle fel ymrwymiad ar y fantolen dai ar gyfer Ebrill 2018 felly mae'r safle yn 'safle wedi'i ddyrannu'. Mae'r datblygwr wedi dechrau ar y gwaith felly mae hyfywedd a'r gallu i ddarparu wedi'u harddangos.					
Math o Isadeiledd	Disgrifiad	Dull Darparu	Amserlen a Ragwelir ar gyfer Cyflawni	Trosolwg o'r amserlen ym mis Ebrill 2019	Statws
				2020	
Dŵr	Cysylltiad dŵr budr wedi'i gyflawni a chyflenwad dŵr ar gael.				Angenrheidiol
Priffyrdd	Mae'r cynllun a ganiatawyd yn darparu cysylltiadau â llwybrau cerdded a beisio, yn arbennig i sicrhau gwell mynediad i ganol y dref.				Angenrheidiol

	Cyfeirnod Teithio Llesol yn amherthnasol.				
Halogiad	Dim cyfeiriad at halogiad.				Angenrhei diol
Draenio	Amod draenio wedi'i gyflwyno fis Ionawr 2019.				Angenrhei diol
Ecoleg	Mae'r cynllun a ganiatawyd yn darparu byffer 30 metr i'r brochfa moch daear a thwnnel o dan un o'r pwyntiau mynediad.				Angenrhei diol
Mannau agored cyhoeddus	Mae'r cynllun a ganiatawyd yn darparu man agored cyhoeddus 0.42ha (ardal chwarae 0.042 ha / perllan gymunedol 0.08ha / man agored cyhoeddus 0.29ha mewn tri lleoliad ar y safle). Fel rheol byddai angen cyfraniad o £110,000 ond gan mai'r Cyngor sydd piau'r safle ni fydd angen amod Adran 106 gyda manylion ynglŷn â sut i fynd i'r afael â'r gofyniad o ran man agored.		Mae'n rhaid i'r man agored / chwarae fod yn barod at ddefnydd y cyhoedd pan fo 50% o'r datblygiad wedi'i werthu neu ei feddiannu.		Angenrhei diol
Addysg	Mae adroddiad pwyllgor yn nodi bod gan Ysgol Bryn Coch le i 599 o ddisgyblion ond bod 601 o ddisgyblion ar y gofrestr. Bydd y cynigion yn arwain at gynnydd o 37 o ddisgyblion, sef swm cymudol o £453,509. Gan mai'r Cyngor sydd piau'r safle nid yw amod Adran 106 yn bosibl ac felly caiff hyn ei reoli drwy amod sy'n gofyn am gymeradwyo sut mae'r datblygiad yn mynd i ddatrys y materion capasiti yn yr ysgol.	Sector Cyhoeddus a Phreifat	Bydd yn rhaid llofnodi Cytundeb Adran 106 ar adeg y Cais Cynllunio, a fydd yn nodi'r amserlen ar gyfer taliadau.		Angenrhei diol
Tai Fforddiadwy	Mae'r cynllun a ganiatawyd yn darparu 48 uned fforddiadwy – amod yn gofyn am union ddarpariaeth.				Angenrhei diol

Rhwydweithiau Ynni Scottish Power	Dim gwybodaeth.				Angenrhei diol
MOL044/045 Tir rhwng Ffordd Dinbych / Ffordd Gwernaffield, yr Wyddgrug (MOL008/044/045)					
Math o Isadeiledd	Disgrifiad	Dull Darparu	Amserlen a Ragwelir ar gyfer Cyflawni	Trosolwg o'r amserlen ym mis Ebrill 2019	Statws
				2023	
Dŵr	<ul style="list-style-type: none"> Mae yna ddigwyddiadau llifogydd a all fod angen eu datrys er mwyn caniatáu i'r datblygiad fynd yn ei flaen. Gall datblygwyr posibl naill ai aros i Lywodraeth Cymru ddatrys y llifogydd, yn amodol ar gyllid yn cael ei gymeradwyo gan ein rheoleiddiwr Ofwat, neu wneud y gwelliannau drwy ddarpariaethau meddiant gorfodol carthffosiaeth Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 neu Adran 106 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Bydd yn rhaid i ddatblygwyr ariannu asesiad modelu hydrologig ar gyfer y rhwydwaith carthffosiaeth i weld lle dylid cysylltu â'r system garthffosiaeth gyhoeddus. Dylai datblygwyr posibl fod yn ymwybodol bod prif bibell ddŵr 19" a 20" yn croesi'r safle hwn ac felly y bydd angen lled hawddfrait, a all effeithio ar ddwysedd y tai.. Mae modd darparu cyflenwad dŵr ar gyfer y safle hwn. 				Angenrhei diol
Priffyrdd	Argymhellwyd fod angen Asesiad Trafnidiaeth llawn a chynghorwyd y dylid datblygu hyn ar y cyd â safle MO+L008.				Angenrhei diol

	<p>Mynediad newydd ar Ffordd Dinbych (yn ogystal â'r hyn fyddai ei angen i wasanaethu'r safle, sydd â'r posibilrwydd o wasanaethu parseli o dir) / cadw a gwella ffiniau cryf y safle yn arbennig ar hyd ymyl gorllewinol y safle, gyda'r potensial i gyfrannu at ddarparu cynllun lliniaru llifogydd yr Wyddgrug / dim datblygiad preswyl ar y tir rhwng Ffordd Dinbych a Pool House Lane.</p>				
Halogiad	<p>MOLO044 Tir gyferbyn â Pool House, Ffordd Dinbych, yr Wyddgrug. Hen lagŵn fflysio/lle golchi/sorod neu bwll anheddiad hen waith tunplat. Dylid cael asesiad o halogiad tir i gefnogi unrhyw gais am ganiatâd cynllunio.</p> <p>MOLO045 Tir i'r gorllewin o Beechwood Close ac Alwyn Close, yr Wyddgrug. Tir yn debygol o fod wedi'i effeithio gan lefelau uwch o blwm a metelau trwm mewn pridd bas. Dylid cael asesiad o halogiad tir i gefnogi unrhyw gais am ganiatâd cynllunio. Ond mae astudiaeth y datblygwyr yn anghytuno ynghylch y lefelau hydrin o blwm yn sgil hen waith mwyngloddio.</p>				Angenrheidiol
Draenio	<p>Dylid egluro gofynion cynllun lliniaru llifogydd yr Wyddgrug yn glir, er mwyn deall potensial y datblygiad i gynorthwyo'r cynllun.</p> <p>Dylid datblygu'r cynllun fel ei fod yn plethu gyda Chynllun Lliniaru Llifogydd yr Wyddgrug.</p>				Angenrheidiol
Ecoleg	<p>Tir amaethyddol wedi'i wella gydag ychydig iawn o gofnodion o rywogaethau a warchodir, ar wahân i ddyfrgwn ac ystlumod lleiaf. Mae'n bosibl bod moch daear ac adar nythu yn bresennol.</p>				Angenrheidiol

	Byddai'n rhaid i unrhyw ddatblygiad asesu ecoleg y safle a darparu Asesiad o'r Effaith ar Ecoleg gyda'r mesurau lliniaru ac osgoi priodol.				
Mannau agored cyhoeddus	Man agored cyhoeddus 4,500m2 gyda gofod chwarae a hamdden. Dylai'r ddarpariaeth gynnwys ardal chwarae gydag eitemau chwarae penodol i ystod o oedrannau.		Mae'n rhaid i'r man agored / chwarae fod yn barod at ddefnydd y cyhoedd pan fo 50% o'r datblygiad wedi'i werthu neu ei feddiannu.		Angenrheidiol
Addysg	Mae nifer y disgyblion yn amrywio dros amser ac felly mae'r trothwy ar gyfer cyfraniadau a nifer y lleoedd gwag mewn ysgol benodol yn amrywio. I dderbyn canllawiau ar Gyfraniadau at Addysg dylid edrych ar Nodyn Canllaw Cynllunio Atodol 23 Cyfraniadau Datblygwyr at Addysg Cyngor Sir y Fflint sy'n manylu ar y fformiwla a ddefnyddir i gyfrifo'r cyfraniadau hyn.		Bydd yn rhaid llofnodi Cytundeb Adran 106 ar adeg y Cais Cynllunio, a fydd yn nodi'r amserlen ar gyfer taliadau.		Angenrheidiol
Tai Fforddiadwy	40% o'r tai yn dai fforddiadwy, sef 98 uned.				Angenrheidiol
Rhwydweithiau Ynni Scottish Power	3 is-orsaf 11Kv newydd – tua £250mil i £300mil.				Angenrheidiol
Haen 2 Canolfannau Gwasanaethau Lleol					
EWL017/020 Ffordd Treffynnon/Lôn Werdd, Ewlo 9.9 ha 298 uned (EWL017/020)					

Math o Isadeiledd	Disgrifiad	Dull Darparu	Amserlen a Ragwelir ar gyfer Cyflawni	Trosolwg o'r amserlen ym mis Ebrill 2019	Statws
				2023	
Priffyrdd	<p>Safle Ffordd Treffynnon – Ystyrir y safle yn un addas yn amodol ar Asesiad Trafnidiaeth. Gwelliannau i gyffordd Ffordd Treffynnon a Ffordd yr Wyddgrug i gynyddu capasiti.</p> <p>Safle Lôn Werdd – Wedi'i ystyried yn anaddas yn y gorffennol fel safle ar ei ben ei hun oherwydd cyfyngiadau cyffordd Lôn Werdd. Mae modd ystyried y safle ar y cyd â safle EWL017 lle mae modd defnyddio rhan o safle EWL016 (sydd yn yr un meddiant â safle EWL017) i ddarparu gwelliannu i gyffordd Lôn Werdd / Ffordd yr Wyddgrug a gwell darpariaeth i gerddwyr.</p> <p>Cyfeirnod Teithio Llesol F6: Mae angen astudiaeth ddichonoldeb i ganfod maint y llwybr, unwaith y mae hyn wedi'i wneud bydd modd cyfrifo'r cyfraniadau. Tan y bydd hynny wedi'i wneud, dylai datblygwyr gadw'r llwybr mewn cof wrth ddylunio'r cynllun tai.</p>				Angenrheidiol
Halogiad	<p>Mae pyllau glo yn yr ardal.</p> <p>Mae'n bosibl y bydd sŵn o'r A55. Angen arolwg.</p>				Angenrheidiol
Draenio	Gallu cyflawni datrysiad sy'n bodloni gofynion SUDS.				Angenrheidiol
Ecoleg	Mae Ardal Cadwraeth Arbennig Safle Madfallod Glannau Dyfrdwy a Bwcle / SoDdGA Pyllau a Choed Cei Connah 250 metr i'r gogledd, sydd				Angenrheidiol

	<p>bennaf wedi'u dynodi oherwydd y madfallod dŵr cribog.</p> <p>Mae Coed New Inn Brook 26NE03 i'r gorllewin o'r safle.</p> <p>Mae'r safle ei hun yn dir amaethyddol wedi'i wella, gyda pherthi a choed a phrysg eithin. Ni cheir cofnodion yn benodol i'r safle ond mae yna bosibilrwydd o bresenoldeb e.e. madfallod dŵr cribog, ystlumod, moch daear ac adar nythu.</p> <p>Byddai'n rhaid i unrhyw ddatblygiad asesu ecoleg y safle a darparu Asesiad o'r Effaith ar Ecoleg gyda'r mesurau lliniaru ac osgoi priodol.</p> <p>Mae'r agosrwydd at yr Ardal Gadwraeth Arbennig yn golygu bod angen ystyried effeithiau anuniongyrchol. Dylid cyfeirio at CCA 8 Gwarchod Natur a Chynllunio ac, yn benodol ar gyfer y safle hwn, CCA 8a Gofynion Diogelu Madfallod Dŵr Cribog.</p>				
Mannau agored cyhoeddus	<p>Safle Lôn Werdd – Mae'r gofyniad man agored cyhoeddus yn oddeutu 4,500m² o ofod chwarae a hamdden.</p> <p>Sylwch, os oes modd cynnwys y man agored cyhoeddus ar y datblygiad hwn gyda'r ardal chwarae bresennol ar y rhodfa gylchol, yna byddai modd cyfuno ardal chwarae gydag offer gydag ardal chwarae'r rhodfa gylchol.</p> <p>Safle Ffordd Treffynnon – Man agored cyhoeddus 12,600m² mewn man canolog gyda gofod chwarae a hamdden.</p> <p>Ardal chwarae gyda chyfarpar ac eitemau chwarae penodol ar gyfer ystod o oedrannau, darparu arwyddion gwybodaeth / cynghorol sy'n nodi pwy sy'n rheoli'r safle. Mae angen cysylltu'r</p>		Mae'n rhaid i'r man agored / chwarae fod yn barod at ddefnydd y cyhoedd pan fo 50% o'r datblygiad wedi'i werthu neu ei feddiannu.		Angenrheidiol

	ardal chwarae a hamdden â'r llwybr o amgylchu perimedr y gofod agored ar gyfer mynediad cynhwysol, mae angen mannau eistedd, gan gynnwys byrddau picnic yn yr ardal chwarae ac yn y man agored, gan greu ardaloedd cymdeithasu ar gyfer holl ddefnyddwyr y man agored. Hefyd, rhaid cael biniau a rhesel feiciau ac ardal gemau aml-ddefnydd sy'n addas ar gyfer tennis, pêl-droed pum bob ochr a phêl-fasged sy'n 30 x 16 metr, a chae chwarae 110 metr x 60 metr.				
Addysg	Mae nifer y disgyblion yn amrywio dros amser ac felly mae'r trothwy ar gyfer cyfraniadau a nifer y lleoedd gwag mewn ysgol benodol yn amrywio. I dderbyn canllawiau ar Gyfraniadau at Addysg dylid edrych ar Nodyn Canllaw Cynllunio Atodol 23 Cyfraniadau Datblygwyr at Addysg Cyngor Sir y Fflint sy'n manylu ar y fformiwla a ddefnyddir i gyfrifo'r cyfraniadau hyn.	Sector Cyhoeddus a Phreifat	Bydd yn rhaid llofnodi Cytundeb Adran 106 ar adeg y Cais Cynllunio, a fydd yn nodi'r amserlen ar gyfer taliadau.		Angenrheidiol
Tai Fforddiadwy	Bydd 40% o'r tai yn fforddiadwy, sef 119 uned.				Angenrheidiol
Rhwydweithiau Ynni Scottish Power	3 is-orsaf 11Kv newydd – tua £250mil i £300mil. Mae'n bur debyg y bydd y rhwydwaith LV yn cael ei wella – hyd at £50mil.				Angenrheidiol
(HWN005) Ash Lane, Penarlâg 9.6 ha 288 uned					
Math o Isadeiledd	Disgrifiad	Dull Darparu	Amserlen a Ragwelir ar gyfer Cyflawni	Trosolwg o'r amserlen ym mis Ebrill 2019	Statws

				2023	
Dŵr	<p>Mae yna ddigwyddiadau llifogydd ar wahân a all fod angen eu datrys er mwyn caniatáu i'r datblygiad fynd yn ei flaen. Gall datblygwyr posibl naill ai aros i Lywodraeth Cymru ddatrys y llifogydd, yn amodol ar gyllid yn cael ei gymeradwyo gan ein rheoleiddiwr Ofwat, neu wneud y gwelliannau drwy ddarpariaethau meddiant gorfodol carthffosiaeth Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 neu Adran 106 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.</p> <p>Bydd yn rhaid i ddatblygwyr ariannu asesiad modelu hydrologig ar gyfer y rhwydwaith carthffosiaeth i weld lle dylid cysylltu â'r system garthffosiaeth gyhoeddus.</p> <p>Dylai datblygwyr posibl fod yn ymwybodol bod prif bibell ddŵr 27" yn croesi'r safle hwn ac felly y bydd angen lled hawddfaint, a all effeithio ar ddwysedd y tai.</p> <p>Mae modd darparu cyflenwad dŵr ar gyfer y safle hwn.</p>				Angenrheidiol
Priffyrdd	Cyfeirnod Teithio Llesol MA2/13: Efallai y bydd angen cyfraniad at wella'r llwybr.				Angenrheidiol
Halogiad	Dim cyfeiriad at halogiad.				Angenrheidiol
Draenio	Mae angen cynnwys datrysiadau draenio yn y cynllun er mwyn sicrhau digon o gapasiti i lawr yr afon.				Angenrheidiol
Ecoleg	<p>Mae adroddiad ecoleg Clwydian yn dderbynol fel gwerthusiad ecolegol rhagarweiniol o'r safle ac yn unol â'r wybodaeth Cofnod sydd gennyf.</p> <p>Casgliad</p> <p>Nid yw'r cynefinoedd a geir ar y safle o werth ecolegol mawr ac mae'n bosibl ystyried y</p>				Angenrheidiol

	rhywogaethau a warchodir sy'n debygol o fod yn gysylltiedig â'r cynefinoedd hyn o fewn y datblygiad, yn dilyn arolygon/asesiadau effaith pellach ynghyd â mesurau osgoi a lliniaru perthnasol.				
Mannau agored cyhoeddus	Man agored cyhoeddus 16,100m2 mewn man canolog gyda gofod chwarae a hamdden. Dylai'r ddarpariaeth gynnwys ardal chwarae gydag eitemau chwarae penodol i ystod o oeddrannau. Bydd hefyd yn cynnwys biniau a rheseli beiciau. Dylai'r ddarpariaeth gynnwys ardal gemau aml-ddefnydd sy'n addas ar gyfer tennis, pêl-droed pum bob ochr a phêl-fasged maint 30 x 16 metr gydag arwyneb tarmac sy'n para'n dda. Dylai'r ddarpariaeth gynnwys cae chwarae 110 metr x 60 metr, a system ddraenio yn unol â manyleb yr Awdurdod..		Mae'n rhaid i'r man agored / chwarae fod yn barod at ddefnydd y cyhoedd pan fo 50% o'r datblygiad wedi'i werthu neu ei feddiannu.		Angenrheidiol
Addysg	Mae nifer y disgyblion yn amrywio dros amser ac felly mae'r trothwy ar gyfer cyfraniadau a nifer y lleoedd gwag mewn ysgol benodol yn amrywio. I dderbyn canllawiau ar Gyfraniadau at Addysg dylid edrych ar Nodyn Canllaw Cynllunio Atodol 23 Cyfraniadau Datblygwyr at Addysg Cyngor Sir y Fflint sy'n manylu ar y fformiwla a ddefnyddir i gyfrifo'r cyfraniadau hyn.				Angenrheidiol
Tai Fforddiadwy	Bydd 40% o'r tai yn fforddiadwy, sef 115 uned.				Angenrheidiol
Rhwydweithiau Ynni Scottish Power	3 is-orsaf 11Kv newydd – tua £250mil i £300mil.				Angenrheidiol
(HCAC 004) Ffordd Wrecsam HCAC 3.5 ha 80 uned					
Math o Isadeiledd	Disgrifiad	Dull Darparu	Amserlen a Ragwelir ar	Trosolwg o'r	Statws

			gyfer Cyflawni	amserlen ym mis Ebrill 2019	
				2023	
Dŵr	Mae Dŵr Cymru wedi gwneud sylwadau ar y safle arfaethedig hwn drwy gais cynllunio 058163. Mae'r rhwydwaith carthffosiaeth cyhoeddus yn gallu derbyn dŵr budr o'r safle datblygu hwn Nid yw Dŵr Cymru yn cyflenwi dŵr i'r ardal hon. Sylwadau'r cwmni dŵr arall ynglŷn â chyflenwad?				Angenrhei diol
Priffyrdd	Mae'r safle yn addas yn amodol ar wella teithio llesol a chludiant cyhoeddus ar ac oddi ar y safle Cyfeirnod Teithio Llesol Hop1/3 a Hop1/2. Mae'r llwybr yn llwybr byr poblogaidd o Abermorddu a Chaergwrle i Ysgol Castell Alun. Mae angen ei wella er mwyn iddo gyrraedd safonau Teithio Llesol. Mae'r llwybr yn cysylltu â'r safle ar hyd llwybrau troed presennol.				Angenrhei diol
Halogiad	Dim cyfeiriad at halogiad.				Angenrhei diol
Draenio	Yn gallu bodloni gofynion SUDS, cynllun yn bosibl.				Angenrhei diol
Ecoleg	Mae'r safle wedi'i ddominyddu gan laswelltir heb ei wella ac wedi'i wella yn rhannol sydd o werth ecolegol, gyda chloddiau hynafol wedi gordyfu sy'n llawn rhywogaethau. Mae dwy nant yn llifo ar draws y safle o'r ffin ddwyreiniol ac yn uno yng nghornel dde-orllewin y coetir gwlyb. Mae dŵr y nentydd yn glir ac yn llifo'n gyflym, ond mae yna hefyd ddŵr llonydd a chors wrth ymyl y ffin ddwyreiniol.				Angenrhei diol

	<p>Mae'r safle bywyd gwyllt cyfagos yn cynnwys llethrau serth gyda glaswelltir sur, rhedyn a chlychau'r gog, a'r coetir gwlyb a'r glaswelltir corsog sy'n llawn bywyd gwyllt, ac mae rhai o'r cynefinoedd hyn a'r rhywogaethau cysylltiedig, fel clychau'r gog, cnau daear, blodau'r brain a thegeirian brych wedi estyn i'r safle.</p> <p>Nid yw'r cais presennol yn darparu digon o wybodaeth ecolegol ac nid yw'n arddangos bod yr ecoleg nac effaith y datblygiad wedi'u hasesu'n briodol.</p> <p>Mae darparu mesurau digonol i liniaru'r effaith ecolegol yn debygol o effeithio ar yr ardal y mae modd ei datblygu / dwysedd y tai.</p>				
Mannau agored cyhoeddus	<p>Man agored cyhoeddus 4,200m2 gyda gofod chwarae a hamdden.</p> <p>Sylwch, os oes modd cynnwys y man agored cyhoeddus ar y datblygiad hwn gyda'r ardal chwarae bresennol yn Llys Clark, yna byddai modd cyfuno ardal chwarae gydag offer gydag ardal chwarae Llys Clark.</p> <p>Dylai'r ddarpariaeth gynnwys ardal chwarae gydag eitemau chwarae penodol i ystod o oedrannau.</p>		Mae'n rhaid i'r man agored / chwarae fod yn barod at ddefnydd y cyhoedd pan fo 50% o'r datblygiad wedi'i werthu neu ei feddiannu.		Angenrheidiol
Addysg	<p>Mae nifer y disgyblion yn amrywio dros amser ac felly mae'r trothwy ar gyfer cyfraniadau a nifer y lleoedd gwag mewn ysgol benodol yn amrywio. I dderbyn canllawiau ar Gyfraniadau at Addysg dylid edrych ar Nodyn Canllaw Cynllunio Atodol 23 Cyfraniadau Datblygwyr at Addysg Cyngor Sir</p>	Sector Cyhoeddus a Phreifat	Bydd yn rhaid llofnodi Cytundeb Adran 106 ar adeg y Cais Cynllunio, a		Angenrheidiol

	y Fflint sy'n manylu ar y fformiwla a ddefnyddir i gyfrifo'r cyfraniadau hyn.		fydd yn nodi'r amserlen ar gyfer taliadau.		
Tai Fforddiadwy	Bydd 30% o'r tai yn fforddiadwy, sef 24 uned.				Angenrheidiol
Rhwydweithiau Ynni Scottish Power	1 is-orsaf 11Kv newydd – tua £80mil i £100mil.				Angenrheidiol
Haen 3 Pentrefi Cynaliadwy					
NEW 004 /013 Cae Isa, New Brighton 3.5 ha 105 uned					
Math o Isadeiledd	Disgrifiad	Dull Darparu	Amserlen a Ragwelir ar gyfer Cyflawni	Trosolwg o'r amserlen ym mis Ebrill 2019	Statws
				2021	
Dŵr	Bydd yn rhaid i ddatblygwyr ariannu asesiad modelu hydrologig ar gyfer y rhwydwaith carthffosiaeth i weld lle dylid cysylltu â'r system garthffosiaeth gyhoeddus. Dylai datblygwyr posibl fod yn ymwybodol bod carthffosydd yn croesi'r safle hwn ac felly y bydd angen mesurau diogelu ar ffurf lled hawddfraint neu wro'r carthffosydd, a all effeithio ar ddwysedd y tai. Mae modd darparu cyflenwad dŵr ar gyfer y safle hwn.				Angenrheidiol
Priffyrdd	Mae'r asesiad cludiant yn gofyn i'r ymgeisydd ddarparu gwybodaeth ychwanegol . Er bod mynediad i'r safle yn bosibl, mae'r dewisiadau yn				Angenrheidiol

	<p>gyfyngedig oherwydd y gyffordd sydd wedi'i rheoli gan signalau traffig.</p> <p>Cyfeirnod Teithio Llesol F5: Mae angen astudiaeth ddichonoldeb i ganfod maint y llwybr, unwaith y mae hyn wedi'i wneud bydd modd asesu'r cyfraniadau. Tan y bydd hynny wedi'i wneud, dylai datblygwyr gadw'r llwybr mewn cof wrth ddylunio'r cynllun tai.</p>				
Halogiad	<p>Mae angen arolwg sŵn. Ardal dirlenwi. Bydd angen asesiad o halogiad tir i gefnogi unrhyw gais am ganiatâd cynllunio.</p> <p>Safle Tirlenwi – Mae'r safle yn ymyl 2 Mynydd Bychan, safle anadweithiol a chefn Sharps Car Hire, hen safle tirlenwi dinesig.</p>				Angenrheidiol
Draenio	<p>Dim problemau amlwg ond mae angen cynnal trafodaeth gyda'r datblygwr a'r tirfeddianwyr cyfagos. Rhaid sicrhau na yw'r dyraniad hwn yn effeithio ar y problemau draenio a gafwyd mewn datblygiad gerllaw.</p>				Angenrheidiol
Ecoleg	<p>Mae'r safle yn dir amaethyddol gyda pherthi a choed, a thir corsiog. Ni cheir cofnodion yn benodol i'r safle ond mae yna bosibilrwydd o bresenoldeb e.e. ystlumod, moch daear, amffibiaid ac adar nythu.</p> <p>Byddai'n rhaid i unrhyw ddatblygiad asesu ecoleg y safle a darparu Asesiad o'r Effaith ar Ecoleg gyda'r mesurau lliniaru ac osgoi priodol.</p>				Angenrheidiol
Mannau agored cyhoeddus	<p>Man agored cyhoeddus oddeutu 5,800m² mewn man canolog gyda gofod chwarae a hamdden i gynnwys ardal chwarae gyda chyfarpar ac eitemau chwarae penodol ar gyfer ystod o oedrannau.</p>		Mae'n rhaid i'r man agored / chwarae fod yn barod at ddefnydd y		Angenrheidiol

			cyhoedd pan fo 50% o'r datblygiad wedi'i werthu neu ei feddiannu.		
Addysg	Mae nifer y disgyblion yn amrywio dros amser ac felly mae'r trothwy ar gyfer cyfraniadau a nifer y lleoedd gwag mewn ysgol benodol yn amrywio. I dderbyn canllawiau ar Gyfraniadau at Addysg dylid edrych ar Nodyn Canllaw Cynllunio Atodol 23 Cyfraniadau Datblygwyr at Addysg Cyngor Sir y Fflint sy'n manylu ar y fformiwla a ddefnyddir i gyfrifo'r cyfraniadau hyn.	Sector Cyhoeddus a Phreifat	Bydd yn rhaid llofnodi Cytundeb Adran 106 ar adeg y Cais Cynllunio, a fydd yn nodi'r amserlen ar gyfer taliadau.		Angenrheidiol
Tai Fforddiadwy	42 uned yn seiliedig ar hyfywedd o 40%.				Angenrheidiol
Rhwydweithiau Ynni Scottish Power	Mae'n bur debyg y bydd y rhwydwaith LV yn cael ei wella – hyd at £100mil.				Angenrheidiol
PEN 038 Ffordd Caer, Penymynydd					
Cynllun Redrow wedi'i ganiatáu ar apêl (055590). Oherwydd dyddiad y caniatâd, nid oes modd cynnwys y safle fel ymrwymiad ar y fantolen dai ar gyfer Ebrill 2018 felly mae'r safle yn 'safle wedi'i ddyrannu'. Mae'r datblygwr wedi dechrau ar y gwaith felly mae hyfywedd a'r gallu i ddarparu wedi'u harddangos.					
Math o Isadeiledd	Disgrifiad	Dull Darparu	Amserlen a Ragwelir ar gyfer Cyflawni	Trosolwg o'r amserlen ym mis Ebrill 2019	Statws
				2020	

Dŵr					Angenrhei diol
Priffyrdd	Mae'r cynllun a ganiatawyd yn darparu £4,000 tuag at ddiwygio gorchymyn traffig (estyn cyfyngiad cyflymder 30mya).				Angenrhei diol
Halogiad	Dim cyfeiriad at halogiad.				Angenrhei diol
Draenio					Angenrhei diol
Ecoleg	Mae'r cynllun a ganiatawyd yn darparu £20,000 tuag at wella bywyd gwyllt ar dir oddi ar y safle.				Angenrhei diol
Mannau agored cyhoeddus	Mae'r cynllun a ganiatawyd yn darparu man agored, gan gynnwys MUGA ac mae hefyd wedi creu cwmni rheoli i sicrhau bod manau gwyrdd yn cael eu creu a'u cynnal a'u cadw.		Mae'n rhaid i'r man agored / chwarae fod yn barod at ddefnydd y cyhoedd pan fo 50% o'r datblygiad wedi'i werthu neu ei feddiannu.		Angenrhei diol
Addysg	Mae'r cynllun a ganiatawyd yn cynnwys darparu £343,196 i Ysgol Gynradd Penyffordd a £591,008 i Ysgol Uwchradd Castell Alun.	Sector Cyhoeddus a Phreifat			Angenrhei diol
Tai Fforddiadwy	Mae'r cynllun a ganiatawyd yn darparu 20 uned rhannu ecwiti, 7 uned wedi'u rhoddi a swm cymunol o £450,000.				Angenrhei diol

